CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND



Gwybodaeth a Dysgu

# Cryfhau cymunedau:

## Strategaethau i gefnogi llefydd sydd heb dderbyn cyllid

Awduron: Julia Parnaby and Temoor Iqbal
Mawrth 2023

→

# Cynnwys

**Rhagair** .......... 3

**Cyflwyniad** .......... 5

Torbay: Cryfhau gallu lleol, hyder a chydweithio .......... 7

Dudley: Meithrin ymddiriedaeth trwy gryfderau a pherthnasoedd cymunedol .......... 14

Gosport: Partneriaethau lleol i helpu i sicrhau nad yw trefi llai yn colli allan i gymdogion mwy .......... 18

Powys: Perchnogaeth tir cymunedol fel ysgogiad ar gyfer buddsoddiad parhaus .......... 23

Ymddiriedolaeth Cyfran Deg: Buddsoddiad hirdymor i fynd i'r afael â thros 80 o fannau oer ran ariannu .......... 27

Clackmannanshire: Cynnal asedau cymunedol drwy arallgyfeirio ariannu .......... 32

Northumberland: Arian a phŵer i gymunedau fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol .......... 36

Barking and Dagenham: Grymuso pobl leol i ddylunio a chyflwyno gweithgareddau cymunedol .......... 40

Gorllewin Armagh: Ymgysylltu â thrigolion a datgloi buddsoddiad trwy gorff cydgysylltu lleol .......... 45

Southend-on-Sea: Buddsoddiad strategol, parhaus yn y blynyddoedd cynnar .......... 49

**I gloi** .......... 56

**Mae hon yn ddogfen ryngweithiol**

Llywiwch drwy'r gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r tabl cynnwys a'r botymau ar waelod pob tudalen.

I gael gwybodaeth am sut rydym wedi cynyddu mynediad at ein hariannu, cyfeiriwch at yr astudiaethau achos am **Torbay**, **Dudley**, **Gosport** a'r **Ymddiriedolaeth Cyfran Deg**.

I gael gwybodaeth am sut rydym wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol, cyfeiriwch at yr astudiaethau achos am **Powys**, **Clackmannanshire** and **Northumberland**.

For information on we have strengthened local capacity and capability, please refer to the case studies on **Barking and Dagenham**, **West Armagh** and **Southend-on-Sea**.

# Rhagair

Fel cyllidwr mwyaf gweithgarwch cymunedol yn y DU, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi'r bobl a'r prosiectau wrth wraidd cymdeithas sifil a chymunedau.

Rhwng 2017 a 2022, dyfarnwyd £2.9 biliwn gennym drwy mwy na 72,000 o grantiau i bron i 46,000 o elusennau a sefydliadau dielw, y mae nifer ohonynt yn gweithio gyda'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac ymylol ledled y DU. Yn ogystal ag arian y Loteri Genedlaethol, rydym yn arwain ar ddosbarthu asedau segur a rhaglenni cymunedol eraill gyda phartneriaid llywodraethol, corfforaethol a dyngarol.

Rydym wedi treulio'r tri degawd diwethaf yn dysgu o'n gwaith gyda chymunedau ac ar eu rhan er mwyn cyflawni canlyniadau hirdymor, yn enwedig lle gallai'r seilwaith cymdeithasol, y capasiti, neu'r cymorth gwneud penderfyniadau presennol fod wedi rhwystro cymunedau. Boed yn rhwystrau penodol fel mynediad i fannau ffisegol neu'n heriau dyfnach fel diffyg grwpiau cymunedol neu elusennau lleol, mae gwersi ymarferol yn dod o'n gwaith.

Dyma wersi allweddol ein profiad:

- Gwrando'n astud ar yr hyn y mae cymunedau eu hunain ei eisiau, a theilwra dulliau i'w hamgylchiadau unigryw.
- Adeiladu ac ariannu gallu a chapasiti sefydliadau a rhwydweithiau lleol, gan helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd ariannu.
- Cael theori a dull syml a chlir, a mesur a dysgu o'r hyn sy'n gweithio (a'r hyn nad yw'n gweithio).
- Targedu a gweithio'n lleol, gan roi pobl leol wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau.
- Ariannu ar gyfer y tymor hir, ac yn aml byddwn yn gwneud hyn am bum mlynedd, deng mlynedd neu'n hirach.
- Canolbwyntio ar angen a lleihau anghydraddoldeb gan adeiladu cydlyniant ac integreiddiad cymunedol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi tystiolaeth a'r hyn a ddysgwyd o 10 dull yr ydym wedi'u defnyddio i ddarparu atebion i faterion cymhleth sy'n benodol i lefydd ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae nifer o'r llefydd hyn wedi'u dynodi'n flaenoriaeth ym mynegai Cronfa Ffyniant Bro'r Llywodraeth, felly rydym yn gobeithio y bydd llunwyr polisi ar lefel genedlaethol a lleol yn gweld hyn yn arbennig o ddefnyddiol.

I mi, mae'r ymchwil yn dangos bod yna bethau cyffredin i'w dysgu ond nad oes 'un ateb i bawb' i gefnogi cymunedau mewn angen. Boed yn Dudley, lle mae ein cyllid wedi cefnogi adeiladu perthnasoedd cymunedol trwy weithgareddau, cyfleoedd gwirfoddoli a gwasanaethau cymorth wedi'u targedu i feithrin ymddiriedaeth yn y gymuned yn raddol, neu yn Swydd Clackmannan, lle mae cyllid arallgyfeirio a chymorth datblygu wedi'i dargedu wedi caniatáu i asedau cymunedol ddod yn hunangynhaliol, rydym yn gobeithio bod yr astudiaethau achos hyn yn cynnig pecyn cymorth o ddulliau gweithredu posibl ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio gyda ffocws mwy lleol, gan sicrhau bod cyllid, cymorth a chyfleoedd ar gael yn deg i bawb.

Ni fwriedir i'r adroddiad fod yn ganllaw manwl gywir ar sut i ddatrys materion cymhleth, amlochrog. Fodd bynnag, mae rhai o'r cymunedau rydym yn eu trafod wedi gweld lefelau uwch o fuddsoddiad, mae eraill wedi gweld trigolion yn cael eu grymuso i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'u blaenoriaethau, ac mae rhai wedi galluogi pobl i ddefnyddio eu creadigrwydd i fodloni heriau hirdymor.

Mae'r gwaith a'r dysgu hwn hefyd yn amserol o ystyried y cyhoeddiad diweddar y bydd cronfeydd cyfoeth cymunedol – a fyddai'n gweld arian yn cael ei ddosbarthu i gymunedau i benderfynu sut i'w ddefnyddio – yn dod yn fuddiolwr ychwanegol o'r Cynllun Asedau Segur yn Lloegr. Fel dosbarthwr asedau segur, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweld y gwahaniaeth trawsnewidiol y mae'r cyllid hwn yn ei wneud a byddwn ni'n defnyddio'r gwersi o'r tri degawd diwethaf i helpu llunio'r ffordd orau o ddefnyddio'r hwb ariannol hwn.

Yn olaf, diolch i bawb a gyfrannodd syniadau a phrofiad i'r adroddiad hwn: mae cryfhau cymuned yn genhadaeth gyffredin – rydym ni yma i chi, nawr ac yn y dyfodol.

**David Knott**

**Prif Weithredwr, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**

# Cyflwyniad

Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gael ariannu a chymorth i'r cymunedau sydd ei angen ond sydd heb fawr o isadeiledd cymdeithasol yn barod i'w dderbyn neu ei ddefnyddio? Mae hwn yn gwestiwn y mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi mynd i'r afael ag ef ers bron i ddeng mlynedd ar hugain.

Gwyddom fod adnoddau, isadeiledd a chyfalaf cymdeithasol yn gydrannau hanfodol o gymuned ffyniannus, a bod angen y rhain yn arbennig mewn cymunedau sydd wedi wynebu amddifadedd a dirywiad anghymesur. Gwyddom hefyd mai'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf am fuddsoddiad yn aml sydd â'r nifer lleiaf o elusennau a grwpiau cymunedol sefydledig i wneud defnydd o'r adnoddau hyn.

Yng nghyd-destun lefelu i fyny, mae'r cwestiwn o sut i ddosbarthu arian yn deg ac mewn ffyrdd sy'n creu newid parhaol, cadarnhaol, yn gyfyng-gyngor i unrhyw ariannwr neu benderfynwr sy'n dymuno defnyddio ariannu i fynd i'r afael ag amddifadedd parhaus.

Mae buddsoddiadau mawr mewn adfywio neu seilwaith ffisegol yn bwysig, ond yn aml maent yn ymdrechion untro, cost uchel, â chyfyngiad amser. Mae angen dybryd am ariannu dros gyfnod parhaus sy'n meithrin ac yn cryfhau cyfalaf cymdeithasol, a'r lleoedd a'r gofodau y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.

Dro ar ôl tro rydym yn clywed fod buddsoddiadau tymor byr neu o'r brig i lawr nad ydynt yn adeiladu, yn cryfhau ac yn cynnal cymunedau ar gyfer yr hir dymor yn gadael trigolion yn teimlo'n rhwystredig ac yn siomedig. Ac rydym yn gweld bod arianwyr sy'n cynnig mwy nag arian yn unig yn gallu cael eu gwerthfawrogi'n fawr a'u bod yn arbennig o effeithiol.

Maent yn meithrin cysylltiadau a chyfleoedd, gan ddod ag elusennau, mudiadau isadeiledd ac awdurdodau lleol ynghyd i ddod o hyd i atebion creadigol a chost-effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd a chymorth ymarferol sy'n helpu i feithrin a chryfhau gallu a sgiliau lleol. Ac maent yn galluogi mudiadau nad ydynt wedi'u rhwymo gan orchmynion tymor byr i wneud gwaith sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn - sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i rwydweithio, yn draws-gymunedol - nad oes llawer o ddarparwyr gwasanaethau eraill yn gallu ei gynnig.

Yn yr adroddiad hwn – Putting good ingredients in the mix – rydym yn cynnig enghreifftiau o'r math hwn o waith. Mae'r rhain yn dangos ystod o ddulliau gweithredu y mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â her isadeiledd lleol bregus a llenwi bylchau ariannu. Mae'r astudiaethau achos estynedig yn canolbwyntio ar leoedd ar draws y DU, llawer ohonynt wedi'u dynodi'n flaenoriaeth un ym mynegai Cronfa Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU.

Er nad yw'r rhain yn cynnig canllaw cyffredinol 'sut i', maent yn cynnig ffenestr i ffyrdd y gall gwahanol ddulliau ariannu ategu a chefnogi buddsoddiad drwy awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol, ac maent yn dangos gwerth ymagweddau a arweinir gan y gymuned a'r sector gwirfoddol. Yn hollbwysig, maent yn archwilio ffyrdd yr ydym wedi buddsoddi i meithrin gallu lleol a rhoi llais ac asiantaeth i gymunedau ledled y DU.

Mae rhai wedi arwain at fwy o fuddsoddiad, gan ddangos sut y gall gweithio seiliedig ar le drosoli ariannu newydd o ffynonellau eraill. Mae eraill wedi ategu arian cyhoeddus gyda buddsoddiadau bach ond wedi'u targedu sy'n rhoi adnoddau'n uniongyrchol yn nwylo trigolion i'w gwario ar eu blaenoriaethau lleol. Mae sawl un yn fentrau tymor canolig i hirdymor sydd wedi galluogi creadigrwydd, dileu risgiau, ac ysbrydoli a chyfarparu pobl leol i brofi ymatebion fforddiadwy a chynaliadwy i heriau hirdymor sefydledig.

Maent yn canolbwyntio ar gyd-destun penodol pob lle, yn aml gyda golwg ar meithrin gallu a hyder pobl leol. Maent yn dangos pwysigrwydd gwybodaeth leol, cysylltiadau ac ymddiriedaeth, gwerth cyflwyno a chysylltu grwpiau, ac arwyddocâd adeiladu partneriaethau a rhwydweithiau sy'n rhoi llais ac asiantaeth i bob rhan o'r gymuned ar ben arian ac adnoddau.

# Torbay:

## Cryfhau gallu lleol, hyder a chydweithio

Yn 2014, fe nodom nad oedd gan fudiadau bach a oedd yn gwneud gwaith cadarnhaol yn Torbay yn Nyfnaint yr adnoddau i ehangu. Roedd angen gwell gwybodaeth a rhwydweithiau lleol ar fudiadau mwy, cenedlaethol er mwyn cysylltu â syniadau a blaenoriaethau a arweinir gan breswylwyr a oedd wrth wraidd ein hymagwedd at ariannu.

I fynd i'r afael â hyn, aethom ati i sefydlu tri llinyn cymorth:

Ein menter Communities Can, mewn partneriaeth â Sefydliad Young, a gysylltodd grwpiau cymunedol â chymorth lleol arbenigol i gryfhau eu sgiliau a'u gallu.

Digwyddiad Pitch Your Project yn Torquay, lle pleidleisiodd pobl leol ar ba brosiectau cymunedol fyddai'n derbyn cyfran o £70,000.

Meithrin partneriaeth rhwng grwpiau llawr gwlad lleol a mudiadau cenedlaethol mawr, dan arweiniad Torbay Community Development Trust.

Adeiladodd y gefnogaeth hon garfan o fudiadau cymunedol gyda chyfrifon banc, trefniadau llywodraethu sefydledig, nodau cymunedol, ac ymdeimlad o'r effaith yr oeddent am ei chreu, gan roi mwy o grwpiau lleol mewn sefyllfa gryfach i wneud cais am ariannu a thyfu'n annibynnol.

- Rhwng Ebrill 2020 a Rhagfyr 2022, mae 21 o grantiau mwy o dros £10,000 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, gyda gwerth cyfunol o £2.4 miliwn, wedi mynd i mewn i Torbay.
- Mae chwech o'r rhain yn ddyfarniadau mawr (dros £100,000) gwerth cyfanswm o £1.56 miliwn, gan gynnwys gwaith gyda phlant ac oedolion ifanc, pobl anabl, a thrigolion un ward ddifreintiedig sy'n ynysig yn gymdeithasol.

Dysgom fod yn rhaid rhoi amser i meithrin gallu ar gyfer mudiadau llai – fel arfer ychydig flynyddoedd o dderbyn cymorth i ddatblygu strategaeth tymor hwy neu fod yn barod i wneud cais am ariannu.

## Sefyllfa

Mae Torbay yn cynnwys trefi glan môr Torquay, Paignton a Brixham, ac mae'n hysbys i genedlaethau o ymwelwyr fel yr English Riviera. Fodd bynnag, mae hefyd wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth un ym mynegai Cronfa Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU, gyda 27% o bobl leol yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yn Lloegr.[1]

Yn 2014, gwnaethom nodi bod y rhan fwyaf o geisiadau am ariannu gan fudiadau Torbay ar gyfer grantiau bach o lai na £10,000, am hyd at flwyddyn. Roedd ceisiadau am grantiau mwy i gefnogi prosiectau cynaliadwy tymor hwy yn llai cyffredin ac roedd eu cyfradd llwyddiant yn is.

Er gwaethaf hyn, roedd gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud drwy fudiadau lleol bach ac unigolion, ond roedd y rhan fwyaf heb yr adnoddau a'r profiad i ehangu eu prosiectau neu ddenu mwy o arian. Nid oedd gan fudiadau rhanbarthol a chenedlaethol mwy y rhwydweithiau ar lawr gwlad i'w helpu i gysylltu â'r syniadau a'r blaenoriaethau sy'n cael eu harwain gan breswylwyr sydd wrth wraidd ein hymagwedd at ariannu.

## Datrysiad

Fe aethom ati i sefydlu tri llinyn o gefnogaeth ar gyfer trigolion a grwpiau gydag egni, cysylltiadau a gwybodaeth y gellid eu defnyddio'n well i gefnogi pobl Torbay.

### Meithrin gallu

Rhedodd ein partneriaeth Communities Can gyda Sefydliad Young rhwng 2015 a 2017, gan gynnig cymorth meithrin gallu i Torbay, Blackpool, Barking a Dagenham, Peterborough a Sunderland.

Roedd y rhaglen yn agored i unigolion neu grwpiau bach gyda throsiant o lai na £10,000. Fe wnaethant hunanasesu yn erbyn pedwar maes allweddol: llywodraethu, gwirfoddoli, codi arian ac effaith, a chawsant dalebau gwerth hyd at £2,500 ar gyfer cymorth gan ddarparwyr arbenigol lleol.

Yn Torbay, darparwyd 87 o becynnau gwerth £123,726, sef cyfanswm o 409 awr o gymorth. Roedd y darparwyr yn cynnwys Devon Voluntary Action, Torbay Community Development Trust, Torbay Social Enterprise Network, a VOYC Devon. Ar gyfartaledd, rhoddodd y buddiolwyr sgôr o 4.6 allan o bump i'r cymorth a gawsant.[2]

### Pitch Your Project

Yn 2017 fe wnaethom gynnwys trigolion Torbay wrth benderfynu pa fentrau lleol y dylid eu hariannu o gronfa bwrpasol o dros £70,000. Gwahoddwyd ceisiadau trwy fynegiant diddordeb byr, ar ôl clywed y gallai ein ffurflenni cais fod yn rhwystr i grwpiau cymunedol anffurfiol. Arweiniodd hyn at 30 o geisiadau am ariannu.

Gan weithio gydag Torbay Community Development Trust fe gynhaliom Pitch Your Project, digwyddiad tebyg i Dragon's Den yn Torquay. Rhoddodd hyn lwyfan i 14 o grwpiau ar y rhestr fer gyflwyno eu gwaith i tua 40 o bobl leol, a bleidleisiodd wedyn am y prosiectau i gael eu hariannu.

Derbyniodd naw grŵp grantiau rhwng £3,000 a £10,000, gan gynnwys Cae Chwarae Antur Cyfeillion Fort Apache, a orfodwyd i gau oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd ein hariannu'n golygu y gallai'r grŵp ailagor i blant ar ôl gwneud atgyweiriadau ac ychwanegu caban pren newydd, swing a phwll tân.[3]

Dyma'r tro cyntaf i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gynnal digwyddiad dyfarnu grantiau cyfranogol yn Lloegr, ac i Torbay Community Development Trust deilliodd aeth sawl peth cadarnhaol o'r ymagwedd. Cynyddodd dealltwriaeth y cyhoedd o waith grwpiau cymunedol lleol, a sut y gall arian y Loteri Genedlaethol eu cefnogi.[4] Roedd hefyd yn galluogi grwpiau bach a allai gael eu dychryn gan brosesau ariannu mwy ffurfiol i gael mynediad at ein grantiau, gydag ychydig iawn o waith gweinyddol a gwaith papur, mewn ffordd anffurfiol, llawn hwyl.[5]

Cynigiom gefnogaeth barhaus i grwpiau aflwyddiannus a rhoddom £24,805 i bedwar prosiect trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol.[6]

## Strengthening partnerships

We also connected national organisations with Torbay Community Development Trust to introduce services in Torbay:

- Fel rhan o'n menter  Ageing Better initiative, gwerth £78 miliwn, rhoddom £6 miliwn i Ageing Well Torbay, i leihau unigrwydd ymhlith rhai o'r 6,000 o bobl dros 50 oed sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn yr ardal. .




- Fe wnaethom hefyd roi £500,000 i Imagine This, partneriaeth gyda Gweithredu dros Blant a 43 o elusennau lleol, er mwyn iddynt allu cydweithio'n fwy effeithiol a gwella iechyd a lles plant, pobl ifanc yn eu harddegau a phobl ifanc. Ar y pryd, roedd Gwasanaethau Plant Torbay dan fesurau arbennig, tra nad oedd elusennau wedi'u rhwydweithio'n dda ac yn aml yn cystadlu am arian.

# Effaith

## Meithrin gallu

Helpodd y gwaith hwn i adeiladu carfan o fudiadau cymunedol gyda chyfrifon banc, trefniadau llywodraethu sefydledig, nodau cymunedol, ac ymdeimlad o'r effaith yr oeddent am ei chreu - i gyd yn flociau adeiladu hanfodol i fudiadau ar lawr gwlad i sicrhau ariannu a chynyddu i gyflawni gwaith sy'n cael effaith.

Cymerodd hyn amser – cymerodd llawer o'r mudiadau a gymerodd ran ddwy neu dair blynedd i ddangos arwyddion o dwf, ond cafodd y gefnogaeth effaith wirioneddol ar y rhai a gymerodd ran.

Cynyddodd Sound Communities yn Paignton yn sylweddol ar ôl cymryd rhan. Roeddem wedi rhoi pum grant bach, blwyddyn o hyd, i'r grŵp yn flaenorol, ac yn 2019 dyfarnwyd £184,000 gennym i Sound Communities i ddatblygu gorsaf radio gymunedol dan arweiniad pobl ifanc, Ocean Youth Radio, i gysylltu a chefnogi pobl ifanc ddifreintiedig.

Yn y ddwy flynedd hyd at 2021, cefnogodd y grŵp 1,350 o bobl ifanc a chynnal sesiynau allgymorth a gyrhaeddodd bobl ifanc yn eu harddegau yn rhai o rannau mwyaf difreintiedig Torbay. Roedd hyn yn bwysig i les y cyfranogwyr yn ystod y pandemig, gyda 98% o bobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy, 70% eu bod yn teimlo'n llai pryderus, a 62% eu bod yn teimlo'n hapusach.[7]

Yn gyffredinol, dywedodd 88% o gyfranogwyr fod gwaith Sound Communities wedi helpu i ddatblygu eu hyder, 70% ei fod wedi eu helpu i deimlo'n rhan o gymuned, ac 82% eu bod yn teimlo'n well ynddynt eu hunain.

Yn 2022, dyfarnwyd £175,000 arall gennym i barhau i gryfhau'r mudiad drwy ei helpu i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac ehangu ac adnewyddu ei safle i gynnwys mwy o bobl ifanc. Mae'r galw am wasanaethau ddwywaith yr hyn y gall ei gefnogi ar hyn o bryd.

Mae'r prosiect bellach yn cyflogi pump o bobl ifanc ar y cyflog byw ac mae ganddo naw gwirfoddolwr, gyda'r nod o hyfforddi mwy o bobl ifanc gyda'r sgiliau a'r profiad i ddod yn entrepreneuriaid cymdeithasol lleol.

"Datblygiad cyffrous iawn i Sound Communities yw ein bod wedi bod yn trafod gyda'n pobl ifanc sut y gallant ddechrau cymryd rhan fwy gweithredol wrth berchen a gwerthu'r cynhyrchion y maent yn eu cynhyrchu. Er enghraifft, mae gennym ni grŵp o bobl ifanc sydd newydd sefydlu eu label eu hunain yn organig yn ddiweddar. Mae gennym ni bobl ifanc sy'n dod ag ariannu i mewn ar gyfer cynhyrchu podlediadau.

"Yr hyn rydyn ni eisiau ei wneud gyda nhw - beth maen nhw eisiau ei wneud hefyd - yw dechrau rheoli'r cyllidebau hynny eu hunain, fel eu bod nhw'n cael profiad o redeg mentrau cymdeithasol. Mae'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y bobl ifanc eisoes yn wirioneddol amlwg; mae fel eu bod hyd yn oed yn fwy brwdfrydig ac wedi'u hysgogi i gyflawni.[8]"

## Partneriaethau

Yn ystod oes Ageing Well Torbay, ymgysylltodd 27 o bartneriaid cyflenwi â 15,549 o bobl dros 50 oed a chynnwys 2,270 o wirfoddolwyr mewn 350 o brosiectau a arweiniwyd gan breswylwyr a 66 o rwydweithiau Good Neighbour.[9] Erbyn mis Mawrth 2021:



**Lleihaodd unigrwydd y cyfranogwyr a chynyddodd eu hymdeimlad o berthyn i'r gymdogaeth o 59% to 70%**



**Bu'r sawl dros 50 oed wirfoddoli fwy na 34,500 awr awr o'u hamser, gan wella eu teimladau o gael eu gwerthfawrogi a chael pwrpas.**

Awgrymodd dadansoddiad cost-buddion, yn seiliedig ar weithgarwch rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2020, fod £1.62 mewn gwerth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a wariwyd.[10]

Ers i arian y Loteri Genedlaethol ddod i ben, mae 90% o weithgarwch Ageing Well, a oedd yn cynnwys adeiladwyr cymunedol, cydlynwyr lles a chymorth cymheiriaid, bellach yn cael ei ariannu o fewn Torbay, yn rhannol oherwydd bod "perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedus rhwng mudiadau ar draws Torbay, [wedi arwain at] gydnabyddiaeth o werth datblygu cymunedol seiliedig ar asedau a gwasanaethau mwy integredig i bobl a chymunedau."[11]

Mae Torbay Community Development Trust ac elusennau eraill hefyd yn chwarae rhan fwy arwyddocaol yn Torbay, er enghraifft trwy Rwydwaith Iechyd a Lles Torbay a thrwy gyfrannu at y Bwrdd Iechyd a Lles. Mae gwasanaeth bws tanysgrifio Ageing Well bellach yn cael cymhorthdal gan y cyngor.[12]

Dechreuodd partneriaeth Imagine This gydag 19 aelod yn 2019 ac mae wedi mwy na dyblu mewn maint. Ymgynghorodd y bartneriaeth â dros 530 o blant, pobl ifanc a theuluoedd a chytuno ar dri maes blaenoriaeth: mannau diogel i gymdeithasu, iechyd meddwl a lles, a diogelu'r amgylchedd.

- Cyrhaeddodd 13 o brosiectau newydd dros 6,800 o gyfranogwyr, a ddywedodd eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd, dysgu sgiliau newydd, gwella eu hyder, a lleihau pryder.[13]
- Mae aelodau'r bartneriaeth wedi elwa drwy rannu dysgu a sgiliau, gwella eu cyrhaeddiad i deuluoedd difreintiedig, cynyddu mynediad at ymarferwyr cymwys, a chyflawni gwell integreiddio â gwasanaethau statudol.
- Mae'r bartneriaeth wedi sicrhau cymorth ychwanegol i Torbay i gyd-gynhyrchu a dylunio gwasanaethau statudol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system ofal. Gwneir hyn trwy LocalMotion, menter seiliedig ar le a ariennir ar y cyd gan Lloyds Bank Foundation, Esmée Fairbairn Foundation, Sefydliad Paul Hamlyn, Sefydliad Lankelly Chase, Tudor Trust, a City Bridge Trust.

## Cyffredinol

Mae'r cyfuniad hwn o gymorth seiliedig ar le wedi cryfhau mudiadau a phartneriaethau cymunedol ar draws Paignton, Brixham a Torquay. Yn bwysig ddigon, mae perthnasoedd a chydweithrediadau wedi datblygu a dyfnhau, gyda llawer o'r chwaraewyr allweddol rydym wedi'u cefnogi yn dod at ei gilydd i gydlynu eu datrysiadau eu hunain a pheidio ag aros i'r awdurdod lleol neu asiantaethau mwy gymryd yr awenau.

Yn 2020, yn nyddiau cynnar y pandemig, daeth, Cyngor ar Bopeth Torbay a grŵp o fudiadau cyngor arbenigol bach atom am gymorth. Roeddent am wella eu platfform ar-lein, yr oedd pobl yn ei ddefnyddio i bostio ceisiadau am help, gyda llinell gymorth brys i gydgysylltu cymorth gan wahanol asiantaethau yn well fel rhan o'r ymateb lleol. Sicrhaodd ein grant o £99,979 y gallent ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol ac ymateb yn gyflym, ar adeg o her fawr.

Erbyn mis Gorffennaf 2021, roedd Torbay Community Helpline wedi ateb 25,000 o alwadau, ac roedd y rhai oedd yn delio â galwadau gwirfoddol wedi cefnogi 6,500 o bobl leol agored i niwed i gael cymorth ymarferol, gan gynnwys cymorth gydag iechyd meddwl a cham-drin domestig.

Mae'r llinell gymorth bellach yn cael ei rhedeg gan staff, gwirfoddolwyr, cymdeithion a phartneriaid Torbay Community Development Trust, ac mae'n parhau i addasu i ddiwallu anghenion lleol sy'n newid. Roedd prosiect peilot, Front Door, yn cefnogi lles cleientiaid Adult Social Care (ASC). O'r 656 o atgyfeiriadau, llwyddodd y llinell gymorth i ddatrys 81%, gyda 11% yn cael cymorth ar y cyd gan y llinell gymorth ac ASC. Dim ond 6% a atgyfeiriwyd yn ôl i ASC.[14]

Ym mis Mai 2022, dyfarnodd Cyngor Torbay £228,000 i Age UK Torbay a Torbay Community Development Trust i barhau gyda'r llinell gymorth, sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu pobl â gwasanaethau yn y fwrdeistref, gan gefnogi trigolion gydag argyfwng costau byw gan gynnwys cyfeirio at Mannau Cynne, the Torbay Food Alliance a chynllun Torbay Good Neighbour.

Mae ein buddsoddiadau i gefnogi cymunedau ac meithrin gallu yn Torbay wedi helpu i gyfrannu at sector gwirfoddol a chymunedol cryfach. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod mudiadau'n teimlo'n fwy hyderus i wneud cais am symiau mwy o arian ac yn gallu rheoli prosiectau cymunedol mwy, hirach neu fwy arwyddocaol yn well.

Rhwng Ebrill 2020 a Rhagfyr 2022[i], dosbarthwyd 21 grant o dros £10,000, gyda gwerth cyfunol o £2.4 miliwn. Er ei bod yn arferol i'r patrwm ariannu amrywio dros amser,[ii] mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y pum grant a roddwyd yn y tair blynedd ariannol hyd at 2020.

- Mae chwech o'r 21 yn ddyfarniadau mawr (£100,000 neu'n fwy) gwerth £1.56 miliwn i gyd, gan gynnwys gwaith gyda phlant a phobl ifanc, pobl anabl, a phobl sy'n ynysig yn gymdeithasol yn ward Ellacombe, lle mae tua dau draean o drigolion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yn Lloegr.
- Nid oedd 22% (4) o'r mudiadau hyn wedi derbyn ariannu gennym yn y 10 mlynedd diwethaf.
- Nid oedd 44% (8) o'r mudiadau a dderbyniodd dros £10,000 wedi derbyn grant o'r maint hwn gennym o'r blaen.
- Roedd gan 71% (15) o'r grantiau werth rhwng £10,000 a £100,000; o gymharu â dim dyfarniadau o'r maint hwn yn y tair blynedd ariannol flaenorol.

## Learning

- Sicrhau, yn ogystal â chefnogi prosiectau penodol, bod ariannu yn galluogi deiliaid grantiau i meithrin gallu, sgiliau craidd ac isadeiledd. Mae meithrin gallu yn broses barhaus sy'n galluogi grwpiau i esblygu wrth i'r amgylchedd lleol ddatblygu. Mae hyn yn helpu i greu isadeiledd cymdeithasol mwy cynaliadwy, gan fynd i'r afael ag un o'r rhwystrau allweddol i fuddsoddi'n effeithiol yn y lleoedd a allai elwa fwyaf o chwistrelliad o adnoddau.
- Rhaid rhoi amser i fudiadau llai meithrin gallu. Mae'n arferol i grwpiau gymryd ychydig flynyddoedd o dderbyn cymorth i gyrraedd y pwynt o ddatblygu strategaeth tymor hwy neu fod yn barod i wneud cais am ariannu.
- Mae gweithio trwy grwpiau lleol presennol yn ffordd wych i bartneriaid cenedlaethol mawr osgoi'r canfyddiad o 'hofrennu i mewn' er mwyn gosod atebion o'r brig i'r bôn. Gall hyn helpu prosiectau i ennill ymddiriedaeth yn haws, yn ogystal â rhoi mynediad iddynt at wybodaeth leol hanfodol.
- Mae LocalMotion yn awgrymu bod galluogwyr allweddol ar gyfer partneriaethau seiliedig ar le yn cynnwys yr isadeiledd presennol a chydweithio, yn ogystal ag arweinyddiaeth wleidyddol ymroddedig. Mae arweinydd cyngor Torbay, er enghraifft, yn weithgar yng ngrŵp craidd LocalMotion.[15]

i 01 Ebrill 2020 i 31 Rhagfyr 2022.

ii Gwnaed 11 (52%) o'r grantiau hyn trwy Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws, ar ran yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon, a helpodd Torbay i ymdopi gydag effaith COVID-19.

# Dudley:

## Meithrin ymddiriedaeth trwy gryfderau a pherthnasoedd cymunedol

Mae ystâd dai Wren's Nest yn Dudley yn gymuned glos ond wedi'i labelu'n negyddol oherwydd yr heriau economaidd-gymdeithasol y mae'n ei hwynebu. Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol mewn adfywio ers y 1990au, mae trigolion yn dal yn anfodlon gyda'r diffyg newid parhaol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ceisiodd YMCA Black Country Group gynnwys y gymuned a phartneriaid lleol mewn cynlluniau i wneud cais am arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Sefydlodd y mudiad weithgor a threuliodd 18 mis yn ymgysylltu â'r gymuned i gael cefnogaeth leol ac i ddeall y problemau yr oedd pobl yn eu hwynebu.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, yn ei flwyddyn gyntaf mae'r prosiect wedi:

- Darparu cefnogaeth un-i-un i 89 o bobl, a chyflwyno 64 o sesiynau gweithgaredd a chymorth grŵp, gan ddenu cyfartaledd o 40 o gyfranogwyr yr wythnos.

Mae mynychwyr wedi dweud eu bod yn teimlo:

- Mwy o ymdeimlad o berthyn, gwell iechyd meddwl a chorfforol, gwell hyder, a mwy o ymdeimlad o optimistiaeth.
- Dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy diogel, bod ganddynt fwy o hunan-barch, gwell ffocws, a mwy o sgiliau.

Gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac sy'n delio â realiti tlodi fod yn reddfol yn wyliadwrus o bobl o'r tu allan a gweithwyr proffesiynol, felly mae dod o hyd i ffyrdd o feithrin cydberthynas a chwalu drwgdybiaeth yn hanfodol. Mae dyfalbarhad, amser a deialog yn allweddol i lwyddiant parhaus.



Wren's Nest

## Situation

Ystâd dai fawr yn Dudley yw Wren's Nest. Mae gan yr ardal gymuned glos ond mae wedi'i labelu'n negyddol oherwydd yr heriau economaidd-gymdeithasol y mae'n ei hwynebu, sy'n cynnwys trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diweithdra, cyrhaeddiad addysgol isel, a diffyg sgiliau.

Aeth arian adfywio sylweddol i'r ystâd o'r 1990au ymlaen [16] a helpodd i fynd i'r afael â'r heriau am gyfnod. Fodd bynnag, mae trigolion wedi mynegi anfodlonrwydd â mentrau unwaith ac am byth sydd wedi methu â sicrhau gwaddol tymor hwy na gweithredu newid parhaol.

Heb unrhyw grwpiau neu fudiadau cymunedol lleol, a rhannau o'r gymuned yn ddrwgdybus o 'swyddogion', roedd wedi dod yn anodd i asiantaethau lleol gynnwys teuluoedd mewn gweithgareddau cadarnhaol, a dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu, gan gynnwys gweithgarwch gangiau.

## Solution

Yn 2019, gwnaeth, YMCA Black Country Group (YMCA BCG) gais am ariannu i anfon gweithwyr cymorth i deuluoedd i Wren's Nest i helpu aelwydydd lleol i feithrin gwydnwch, sgiliau a sefydlogrwydd. O ystyried y cyd-destun lleol, fe gynghorom y dylai'r grŵp ganolbwyntio ei gynlluniau o'r newydd ar adeiladu'r gymuned o'r tu mewn a harneisio ei chryfderau.

Mewn ymateb, sefydlodd BCG YMCA weithgor Wren's Nest, a oedd yn dod â thrigolion, ysgolion a mudiadau partner ynghyd. Roedd y rhain yn cynnwys y cyngor, darparwyr tai, eglwysi, y Tîm Troseddau Ieuenctid lleol, a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Bu partneriaid yn gweithio'n agos gyda'r gymuned am 18 mis i ennill eu cefnogaeth trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb a oedd yn archwilio'r materion yr oedd preswylwyr yn eu hwynebu, a beth fyddai'n ennyn diddordeb ac yn cefnogi teuluoedd.

Yn 2021 dyfarnwyd bron i £645,000 ar gyfer prosiect Wren's Nest Navigator sy'n anelu at frwydro yn erbyn diweithdra sydd wedi hen ymwreiddio, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chodi sgiliau a dyheadau cymunedol.

Ymagwedd y prosiect yw dechrau trwy ddod i adnabod teuluoedd yn dda, gyda staff yn treulio amser yn y gymdogaeth i feithrin cydberthynas. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau prosiect yn cael eu teilwra i anghenion pobl ac yn gweithio gyda chryfderau'r gymuned, tra hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau a heriau.

Mae hwyluswyr gwirfoddol, gyda chefnogaeth staff, yn gweithio gydag unigolion a theuluoedd i greu cynllun gweithredu personol a darparu cymorth wedi'i deilwra. Cyflwynir hyn drwy gyfuniad o fentora, gweithgareddau personol ac ar-lein, a chyfarfodydd cymorth. Mae cynnwys pobl leol wrth gefnogi eraill yn rhan allweddol o'r prosiect, gan helpu i sicrhau bod y gymuned yn dod yn fwy gwydn o'r tu mewn.

Roedd yr awydd i fanteisio ar un o'r cyfleoedd gwirfoddoli yn isel i gychwyn, gyda'r rhai y cysylltwyd â hwy yn amau bod ganddynt yr hyder neu'r sgiliau i helpu eraill. Roedd yn rhaid i staff y prosiect feithrin ymddiriedaeth a helpu darpar wirfoddolwyr i deimlo bod ganddynt rywbeth i'w gynnig. Aethant i'r afael â hyn mewn ffordd ysgafn, gan siarad â phobl yn ystod sesiynau eraill ac egluro beth oedd yn ei olygu, a'r addysg a'r cymorth a oedd ar gael.

Mae hyfforddiant, a ddarperir gan gydlynydd gwirfoddolwyr ymroddedig, yn cwmpasu diogelu, iechyd a diogelwch, a sgiliau sy'n benodol i'r rôl. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cael cyfeiriad e-bost YMCA, a mynediad i ystod o gyrsiau hyfforddi ar-lein a llwyfannau diogel sy'n caniatáu iddynt gyfathrebu â'u mentoreion heb rannu eu manylion cyswllt personol.

Canfu staff fod cyfran sylweddol o wirfoddolwyr yn rhoi'r gorau iddi ychydig cyn cael rolau wedi'u dyrannu iddynt, gan fod angen iddynt gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Er mwyn atal y gofyniad diogelu hwn rhag rhwystro pobl, gofynnodd staff am fanylion personol ar ddechrau'r broses hyfforddi, fel bod gwiriadau DBS wedi'u cwblhau erbyn i'r hyfforddiant ddod i ben a bod gwirfoddolwyr yn barod i fwrw ymlaen.

Mae'r holl wirfoddolwyr yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi, un-i-un a thrwy gyfarfodydd grŵp, sydd hefyd yn adeiladu ac yn cryfhau eu cysylltiadau cymdeithasol.

Mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn cael eu paru ag unigolion y maent yn eu cefnogi am hyd at chwe mis. Maent yn cyfarfod i nodi nodau bywyd cyraeddadwy, a chyfeirio at weithgareddau, gwasanaethau a gweithdai perthnasol. I gefnogi eu datblygiad personol ymhellach, mae gwirfoddolwyr yn helpu gyda thasgau gweinyddol sy'n helpu i adeiladu sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer y dyfodol.

## Effaith

Mae'r prosiect wedi gweld llwyddiant yn ei flwyddyn gyntaf. Darparodd gefnogaeth un-i-un i 89 o bobl a chyflwynodd 64 o sesiynau gweithgaredd a chymorth grŵp, gan gynnwys gweithdai coginio a bwyta, sgiliau cyflogadwyedd a mwy. Denodd y rhain gyfartaledd o 40 o gyfranogwyr yr wythnos.

Mae mynychwyr wedi nodi gwelliannau mewn iechyd meddwl a chorfforol, mwy o deimladau o berthyn, a mwy o ymdeimlad o optimistiaeth. Yn ogystal, mae pobl ifanc wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel, gyda mwy o hunan-barch, ffocws gwell, a mwy o sgiliau.

Er bod y prosiect yn dal i fod yn ei gyfnod cynnar, mae YMCA BCG wedi sylwi, pan oedd llai o sesiynau gyda'r nos i bobl ifanc, fod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu, sy'n awgrymu y gall darparu amgylchedd diogel i bobl ifanc gael effaith gadarnhaol ar yr ystâd.

Mae gwaith y prosiect gydag ysgolion hefyd wedi cael effaith. Mae staff wedi gweithio gyda Wren's Nest Primary School a Priory Park Community School i gefnogi pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan ddarparu strwythur mewn cyfnod bywyd pan all cynyddu annibyniaeth roi pobl ifanc mewn perygl o gael eu denu i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Parc Priory bellach yn ceisio ariannu ar gyfer man hamdden i bobl ifanc ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.

## Dysgu

- Gall cymunedau gael eu gadael yn rhwystredig pan fydd prosiectau'n gwneud gwaith da ond yna'n diflannu, felly i fynd i'r afael â diffyg ymddiriedaeth neu amheuaeth mae'n bwysig adeiladu cysylltiadau cryf cyn cyflwyno prosiectau newydd.
  - Dylai nodau gynnwys galluogi'r gymuned a rhoi adnoddau iddi ei chynnal ei hun, a chreu partneriaeth integredig a allai fod yn sail i lif hirdymor, cynaliadwy o ariannu i'r ardal, gan osgoi canfyddiadau o bobl o'r tu allan yn parasiwtio i mewn ac allan.
  - Gallai recriwtio gwirfoddolwyr lleol a meithrin cryfder y gymuned helpu grwpiau annibynnol yn y pen draw i ffurfio a chymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb tymor hwy.

- Mae cymryd amser i feithrin ymddiriedaeth yn hanfodol, oherwydd bydd llawer o grwpiau'n gweithio gydag unigolion sydd wedi cael profiadau anodd o ymgysylltu â gwasanaethau lleol fel y cyngor neu'r heddlu.
  - Er mwyn chwalu rhwystrau, mae dyfalbarhad yn allweddol. Cam cyntaf pwysig yw helpu pobl i gael mynediad at adnoddau, dysgu sgiliau sylfaenol, a chael gafael ar hanfodion. Gall hyn helpu i feithrin ymddiriedaeth a gwella'r posibilrwydd o fwy o ymgysylltu ac effaith yn y dyfodol.
  - Er mwyn mynd i'r afael â phryderon y gallai staff adrodd am faterion i'r heddlu neu wasanaethau cymdeithasol, adeiladodd YMCA BCG berthynas waith agos gyda Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr a chynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn sesiynau gweithgaredd, gan helpu i feithrin cydberthynas a chwalu amheuaeth.
  - Creodd gweithdai gyda phobl ifanc fannau diogel i drafod materion anodd fel defnyddio alcohol a chyffuriau, rhywiaeth a hiliaeth. Dywedodd llawer o bobl ifanc yn eu harddegau nad oeddent erioed wedi cael y sgyrsiau hyn o'r blaen. Roedd y natur agored hwn yn galluogi sgyrsiau a oedd yn helpu cyfranogwyr i ddysgu mwy am wahanol ddiwylliannau a chrefyddau, a chanlyniadau ymddygiad gwahaniaethol.
  - Fe wnaeth ymgysylltu â phobl ifanc wrth drafod pam fod gweithredoedd gwrthgymdeithasol yn digwydd agor deialog am ganlyniadau personol a chymdeithasol. Gall hyn helpu i symud y sgwrs oddi wrth y bai a thuag at addysg a dealltwriaeth.
  - Roedd gweithio gyda phobl ifanc hŷn, 15-18 oed, yn fwy heriol, gyda gelyniaeth a chamdriniaeth barhaus. I fynd i'r afael â hyn, cynyddodd y prosiect nifer y staff mewn sesiynau gyda'r grŵp oedran hwn a rhoddodd fwy o ffocws i weithgareddau atal a dargyfeirio gyda phobl ifanc iau yn eu harddegau i'w cael oddi ar y llwybr i ymddygiadau tebyg.[17]

# Gosport:

## Partneriaethau lleol i helpu i sicrhau nad yw trefi llai yn colli allan i gymdogion mwy

Yn Gosport, tref fechan yn Hampshire, mae'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi cael trafferth denu cyfran gymesur o ariannu, o gymharu â'i chymydog mwy, Portsmouth.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, codwyd ymwybyddiaeth o arian y Loteri Genedlaethol drwy ffeiriau ariannu lleol a thargedwyd buddsoddiadau mewn partneriaethau rhwng elusennau mwy o faint yn Portsmouth a mudiadau llai yn Gosport.

Sefydlwyd dwy bartneriaeth, Close Encounters, partneriaeth rhwng Age UK Portsmouth a Gosport Voluntary Action a The Lighthouse, partneriaeth rhwng Havant ac East Hants Mind a'r elusen iechyd meddwl pobl ifanc leol Motiv8, i gefnogi pobl hŷn sy'n wynebu unigrwydd a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.

Helpodd Close Encounters 86% o gyfranogwyr i gyflawni eu nodau yn ymwneud ag iechyd a gofal, diogelwch, cyllid, a rhyngweithio cymdeithasol, gyda 73% yn sôn am ostyngiad mewn teimladau o unigrwydd. Gweithiodd The Lighthouse gyda 69 o bobl ifanc trwy sesiynau grŵp a 37 trwy gefnogaeth un-i-un, gan wella eu hyder a'u sgiliau hunanofal.

**Rhwng 2017/18 a 2018/19, fe ddyfarnom grantiau gwerth £103,000 yn Gosport. Cododd hyn i £1.3m yn y ddwy flynedd nesaf, gan gynnwys cefnogaeth i'r gymuned yn ystod y pandemig.**

Mae ariannu partneriaethau lleol yn cynnig ffordd effeithiol o gynyddu adnoddau a chefnogi rhwydweithiau lleol, gan arwain at sector cymunedol mwy sefydledig.

## Sefyllfa

Mae Gosport wedi'i leoli ar benrhyn i'r gorllewin o Portsmouth. Mae gan ei chymydog mwy 15 ardal yn y 10% mwyaf difreintiedig yn Lloegr[18] a sector gwirfoddol a chymunedol mwy datblygedig na Gosport. Mae prosiectau yn Portsmouth yn aml yn cwmpasu Gosport yn ddiofyn, ond mae llawer yn ei chael hi'n anodd cael effaith mewn tref sy'n ddiwylliannol wahanol i'w tref nhw.

Yn 2018, buom yn siarad ag ASau lleol ac arweinwyr sector ac adolygu ein hariannu i Gosport. Roedd nifer isel o geisiadau yn golygu bod llai o grantiau'n mynd i'r dref nag i rannau tebyg o Hampshire.

## Datrysiad

Buom yn gweithio gyda'r AS a Gosport Voluntary Action (GVA) i gynnal cyfres o gymorthfeydd ariannu ar gyfer mudiadau micro a bach, i ddileu rhwystrau i gael mynediad at ein hariannu. Arweiniodd digwyddiad i ddarpar ymgeiswyr yn Gosport yng nghanol 2021 at bedwar cais am grantiau canolig a mawr.

Gwnaethom hefyd ddyfarniadau wedi'u targedu i gysylltu mudiadau mawr yn Portsmouth â grwpiau llai gyda ffocws mwy penodol ar Gosport. Helpodd hyn gronni adnoddau a rhannu arbenigedd tra'n mynd i'r afael â'r mater o ariannu yn seiliedig ar Portsmouth ddim yn cyrraedd y dref.

Er enghraifft, rhoddom £670,000 i Close Encounters, partneriaeth rhwng Age UK Portsmouth a GVA i wella ansawdd bywyd pobl hŷn unig ac ynysig. Yn unigol, roedd gan y ddau fudiad hanes cadarnhaol, gydag Age UK Portsmouth wedi helpu i leihau galwadau 999 a derbyniadau i'r ysbyty, a GVA yn cefnogi'n effeithiol bobl ag anghenion cymhleth a gyfeiriwyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion.

Trwy weithio mewn partneriaeth, bu modd i'r ddau grŵp ddatblygu a gwella eu gwasanaethau, trwy system rheoli cofnodion cwsmeriaid a rennir, croesgyfeiriadau, a rhannu dysgu. Roedd y prosiect hefyd yn ymestyn ei gyrhaeddiad daearyddol i Havant, Hayling a Fareham. Is-gontractiwyd darpariaeth gwybodaeth i Age Concern Gosport, gan ddod â mudiad Gosport arall i'r bartneriaeth ac ychwanegu sgiliau a phrofiad newydd.

Datblygodd y bartneriaeth berthynas waith gref ag awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, yn enwedig i gefnogi rhagnodi cymdeithasol yn lleol. Roedd atgyfeiriadau gan bresgripsiynwyr cymdeithasol wedi'u lleoli gan feddygon teulu yn gyffredin yn ystod cyfnodau cloi COVID-19, gydag un rhagnodwr yn disgrifio Close Encounters fel "yr unig lwybr i raddau helaeth ar gyfer cymorth i rai o'n cleifion."[19] Darparodd y bartneriaeth hyfforddiant hefyd i fyfyrwyr parafeddygon trydedd flwyddyn, gan godi proffil rhagnodi cymdeithasol gyda chenhedlaeth newydd o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae pwyllgor llywio a fforymau cyhoeddus y bartneriaeth yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio, darparu a datblygu gwasanaethau. Canfu'r partneriaid yn gyflym fod un fforwm ar gyfer Gosport a Portsmouth yn dieithrio rhai pobl, gyda'r rhan fwyaf yn brin o wybodaeth am y lleoliad arall neu'r gwasanaethau sydd ar gael gan y ddau gyngor gwahanol. Mae fforymau cyhoeddus chwarterol bellach yn cael eu cynnal yn Gosport a Portsmouth, gydag o leiaf un cynrychiolydd o bob tref yn mynychu'r pwyllgor llywio, fel bod gan bob lle gynrychiolaeth gyfartal.

Roedd grant o dros £500,000 i'r elusen iechyd meddwl pobl ifanc leol Motiv8 yn golygu y gallai'r grŵp gynnig rhaglenni am ddim i bobl ifanc yn Gosport a Fareham. Mae'r rhain yn cyfuno cymorth un-i-un a chymorth grŵp, ac yn cynnig grwpiau gweithgaredd sy'n cynnwys sesiynau lles, cyngor iechyd rhywiol, cymorth i rieni a gofalwyr, a hyfforddiant sgiliau. Mae hyn wedi darparu gwasanaeth gwerthfawr i gymuned Gosport, a rhoddodd y grant hwn, ynghyd ag ariannu brys ychwanegol yn ystod y pandemig, y sicrwydd i'r elusen dyfu a datblygu ei gallu.

Roedd hyn yn golygu bod Motiv8 mewn sefyllfa dda i fod yn bartner gyda Havant and East Hants Mind ar brosiect pobl ifanc newydd – the Lighthouse – a gefnogwyd gennym yn 2021 gyda grant o bron i £475,000. Mae'n cynnig sesiynau galw heibio, cyfeirio a chymorth i deuluoedd, ac yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc.

Mae'r ddau bartner wedi canfod bod y profiad yn un cadarnhaol. Mae staff wedi gwerthfawrogi cydweithio a rhannu profiad sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau am achosion cymhleth. Mae manteision ymarferol eraill yn cynnwys gallu cefnogi ei gilydd i gyflenwi yn ystod absenoldeb salwch a dysgu o'r heriau o gyfuno diwylliant agored (Motiv8) gyda gwasanaeth mwy strwythuredig (Mind).

## Effaith

Bu Close Encounters yn gweithio gyda phobl i osod a gweithio tuag at amrywiaeth o nodau yn cwmpasu pum maes allweddol: iechyd a gofal, diogelwch yn y cartref, sicrwydd ariannol, newidiadau mawr mewn bywyd, a rhyngweithio cymdeithasol. Yn gyffredinol, cyflawnwyd 86% (1,550) o'r holl nodau a gofnodwyd yn llwyddiannus.

Roedd unigrwydd cyfranogwyr fel arfer wedi gwella o'r gwaelodlin i dri mis, ac yn gyffredinol, nododd 73% ostyngiad yn eu teimladau o unigrwydd. Gwelodd y prosiect hefyd ostyngiad yng nghyfran y cyfranogwyr a oedd yn teimlo'n anfodlon â'u perthnasoedd a'u cyfeillgarwch.

Bu Close Encounters hefyd yn helpu pobl hŷn i wneud cais am a derbyn dros £1.26 miliwn mewn budd-daliadau yr oeddent yn gymwys i'w cael, ond yn colli allan arnynt. Yn fwyaf cyffredin, Lwfans Gweini oedd hwn ar gyfer pobl dros oedran Pensiwn.[20]

Roedd partneriaid yn cydnabod mai cryfder allweddol y cydweithio oedd arbenigedd lleol pob partner, a hanes o gael eu parchu a'u cysylltu'n dda o fewn eu cymunedau. Amlygodd cyfweliadau â chyfranogwyr natur bersonol y gwasanaeth fel sbardun allweddol i'w lwyddiant.

Ers ei lansio yn 2020, mae hyb Motiv8 wedi gweld dros fil o bobl ifanc a bron i 250 o rieni, yn ddigidol ac wyneb yn wyneb, trwy amrywiaeth o sesiynau galw heibio wythnosol ac apwyntiadau y gellir eu bwcio.[21] Mae mynychwyr wedi nodi gwneud ffrindiau, gallu siarad yn agored â staff, a mynediad i ofod awyr agored fel uchafbwyntiau. Mae rhieni hefyd wedi canmol y gwasanaeth am helpu eu plant i fod yn nhw eu hunain, cymdeithasu, a siarad â phobl am eu teimladau.

Mae The Lighthouse yn gymharol newydd, ar ôl dechrau yng nghanol 2021 yn ystod heriau COVID-19. Fodd bynnag, mae eisoes wedi canfod bod pobl ifanc yn wynebu sefyllfaoedd cartref cymhleth iawn. Yn ei flwyddyn lawn gyntaf bu'n gweithio gyda 69 o bobl ifanc unigol trwy sesiynau grŵp, sydd wedi'u targedu at wahanol oedrannau, gyda chymorth ar gyfer blynyddoedd chwech i wyth yn fwyaf poblogaidd. Cymerodd 37 o bobl ifanc hefyd sesiynau cymorth un-i-un rheolaidd gyda Motiv8 neu Ymarferydd Lles Meddwl, a'r arwyddion cynnar yw bod y cyfuniad hwn o gymorth yn eu helpu.[22]

Cafodd un cyfranogwr ei gyfeirio at y gwasanaeth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac i ddechrau bu fynychu dim ond "i'w cadw nhw'n dawel!" Bu ddarganfod yn sydyn bod The Lighthouse yn lle diogel i ddechrau mynd i'r afael â'i orbryder cymdeithasol. "Mae gorbryder cymdeithasol yn rhywbeth rydw i wedi bod yn dioddef gydag ef erioed, yn enwedig gyda phobl o'r un oedran â mi – rwy'n eu cael yn eithaf brawychus […] ond wrth ddod yma, mae'n dechrau gwneud i mi weld bod y byd y tu allan yn lle diogel. Po fwyaf y byddaf yn dod, y mwyaf rwy'n teimlo'n gyfforddus yn mynd allan rhywle arall."

Yn gyffredinol, mae 100% o'r mynychwyr yn dweud bod eu hiechyd meddwl a'u lles wedi gwella ers defnyddio'r gwasanaeth.

## Cefnogaeth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Ers ariannu'r prosiectau partneriaeth mawr hyn, rydym hefyd wedi cynyddu buddsoddiadau eraill yn Gosport. Yn y ddwy flynedd ariannol cyn y gwaith hwn (2017/18 a 2018/19) dyfarnwyd 11 o grantiau gwerth cyfanswm o £103,000 yn y dref. Yn y ddwy flynedd ariannol ddilynol cododd hyn i 17 o grantiau gwerth £1.3 miliwn, gan gynnwys mwy na £118,000 i gefnogi'r gymuned i ymateb i'r pandemig.

Roedd y cynyddol hwn yn ariannu yn cynnwys arian ar gyfer Llyfrgell Gymunedol Elson, a gaewyd, ynghyd â saith llyfrgell arall yn 2020. Galluogodd ein grant i bobl leol ailagor y llyfrgell fel canolbwynt cymunedol, gan gynnig grwpiau cymorth, gofod swyddfa i fudiadau lleol, cyrsiau hyfforddi, digwyddiadau cymdeithasol, a chaffi. Ei nod yw dod yn hunangynhaliol trwy rentu lle a chynnig aelodaeth â thâl.

Tra bod ein hariannu cynyddol yn parhau, mae mwy i'w wneud i ehangu'r nifer o fudiadau yn y dref sy'n gymwys i dderbyn ariannu neu sy'n ddigon sylweddol i wneud cais am grantiau mwy. Ers 2017/18, mae dros 80% o'r holl ariannu a ddyfarnwyd yn Gosport wedi bod trwy grantiau bach o £10,000 neu lai.

Fel mewn sawl rhan o'r DU, gadawodd y pandemig yr elusennau a'r grwpiau cymunedol yn Gosport dan bwysau. Rydym yn parhau i gefnogi GYC i gryfhau'r sector ac adeiladu capasiti a gallu.

Mae digwyddiad rhwydweithio deufisol Bringing Gosport Together GYC yn dod ag aelodau, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a hyrwyddwyr cymunedol ynghyd i gydweithio ar fentrau lleol. Mae hefyd yn gyfrwng i rannu dysgu a chael cymorth ymarferol gan gymheiriaid, gan gynnwys ar sut y gall grwpiau farchnata eu gwaith yn fwy effeithiol, gan helpu pobl ar draws Gosport i fod yn fwy ymwybodol o'r ystod o wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael yn y dref.

Ar ôl cyfnod cychwynnol o 10 mis, helpodd y tîm nhw i lunio cynllun busnes i wneud cais i berchennog y lleoliad am flwyddyn arall o ariannu. Mae'r siop goffi – Grounded – bellach yn rhedeg chwe diwrnod yr wythnos o amgylchoedd prydferth y Wilds, ecoleg gymunedol a gofod digwyddiadau yn Barking Riverside.

Dechreuodd carfan newydd o breswylwyr ar raglen fusnes Coffee:Works ym mis Ionawr 2023, gan hyfforddi mwy o drigolion fel baristas i fod yn rhan o greu caffi cymunedol newydd yn Llyfrgell Dagenham. Hyfforddodd Food:Works, rhaglen debyg gyda'r nod o greu cydweithfa arlwyo sy'n cael ei rhedeg gan breswylwyr, ei grŵp cyntaf o bobl leol ddiwedd 2022.

## Effaith

Fel peilot pum mlynedd uchelgeisiol, mae Every One Every Day wedi adeiladu mudiad llawr gwlad cryfach a mwy egnïol. Erbyn ei bumed pen-blwydd:

- Roedd dros 300 o brosiectau cymdogaeth wedi rhoi cyfleoedd i fwy na 5,000 o drigolion sefydlu neu roi cynnig ar bethau newydd.
- Roedd pobl leol wedi treulio dros 60,000 o oriau gyda'i gilydd yn adeiladu, yn gwneud, yn rhannu ac yn cysylltu.[51]
- Roedd wedi creu 15 o fusnesau cydweithredol newydd gydag 80 o bobl leol yn rhan o fasnachu prawf, gan werthu bron i 2,000 o gynhyrchion a chodi £11,000 mewn refeniw.

Mae'r fenter wedi bod yn llwyddiannus wrth rymuso trigolion i ysgogi gwelliannau yn eu cymuned. Mae cyfranogwyr wedi adrodd lefelau uchel o foddhad, gyda sgôr cyfartalog o wyth allan o 10 ar gyfer rhwyddineb creu prosiectau newydd ac am fwy o ymdeimlad o hyder o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Yn ogystal, mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad trigolion o'r ardal, gyda sgôr cyfartalog o wyth o bob 10 ar gyfer atyniad a bywiogrwydd cynyddol y fwrdeistref fel lle i fyw.

Mae'r gwaith wedi arwain at fwy o gydlyniant a chapasiti yn y gymuned. Sgoriodd y cyfranogwyr wyth allan o 10 am y cynnydd mewn gallu i wneud penderfyniadau ar y cyd fel cymuned, a saith allan o 10 am allu'r gymuned i ymateb gyda'i gilydd i broblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r gweithgareddau newydd niferus y mae'r gymuned wedi'u cynllunio a'u darparu hefyd wedi arwain at ystod o fanteision i les a chysylltiadau cymdeithasol preswylwyr. Ar gyfartaledd rhoddodd pobl sgôr o naw allan o 10 i'w profiadau o gyfeillgarwch a chysylltiad cymdeithasol, eu hymdeimlad o gymuned, a'u mwynhad a hapusrwydd o gymryd rhan yn y sesiynau.[52]

Wrth i'r peilot ddechrau ar gam olaf y gweithgareddau a ariennir, mae'r effaith y mae wedi'i chyflawni a'r dysgu allweddol a gasglwyd yn cynnig tystiolaeth werthfawr i lywio trafodaethau gyda phreswylwyr a phartneriaid am ei raddfa a'i gyfeiriad yn y dyfodol.

## Dysgu

- Gall dileu ofn methiant, risg ariannol, a phryderon diogelwch rymuso trigolion i archwilio a phrofi syniadau a dulliau newydd. Fodd bynnag, mae angen ymagwedd gadarn gan y mudiad arweiniol.
  - Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth arbenigol am faterion hollbwysig megis iechyd a diogelwch, diogelu, a chymorth cyntaf. Gall canoli cymorth, hyfforddiant ac offer ar draws prosiectau lluosog hefyd helpu i ddatgloi arbedion maint, gan olygu y gall ariannu fynd ymhellach.
  - Rhaid i fudiadau arweiniol fod yn barod i addasu wrth iddynt ddysgu am uchelgeisiau a galluoedd y gymuned, sy'n gofyn am niferoedd digonol o staff a gwirfoddolwyr. Tyfodd tîm Every One Every Day o dri aelod o staff ym mis Awst 2017 i 26 erbyn Rhagfyr 2022.
  - Mae angen i staff a gwirfoddolwyr gael eu cefnogi'n dda i reoli rolau a all fod yn feichus, gyda llawer o alwadau cystadleuol ar eu hamser a'u hystwythder meddwl, felly mae ffocws cryf ar les staff a gwirfoddolwyr yn hanfodol.
- Mae partneriaeth gref gyda'r awdurdod lleol yn bwysig, gan fod y cyngor yn aml yn hwylusydd, galluogwr a datryswr problemau hollbwysig.
  - Dywed Participatory City ei bod yn bwysig ymgysylltu ar draws pob persbectif gwleidyddol, er mwyn cadw annibyniaeth ac i gyflwyno delwedd gynhwysol ac amhleidiol i drigolion.
  - Serch hynny, dysgodd y grŵp fod yr amodau mwyaf ffrwythlon ar gyfer ei ddull cyfranogol o dyfu i'w cael yn y tir canol gwleidyddol.

  - oRoedd cyfarfodydd rheolaidd, anffurfiol gyda gweithwyr allweddol y cyngor yn cryfhau perthnasoedd ac yn agor cyfleoedd i gydweithio.
  - oRoedd adeiladu cysylltiadau strategol a gweithredol yn nodi mentrau newydd y gellid eu cyflwyno ar y cyd, gan helpu staff newydd i ddysgu a datblygu yn y broses.
- Mae dileu rhwystrau i gyfranogiad yn ymwneud nid yn unig â logisteg, ond hefyd â sicrhau bod pawb, gan gynnwys grwpiau ymylol, yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r prosiect yn cydbwyso ymagwedd gyffredinol â ffyrdd arbrofi i gyrraedd y rhai sydd mewn perygl o golli alla:
  - Mae'r pum siop stryd fawr mewn lleoliadau y mae pobl yn mynd heibio iddynt wrth iddynt fwrw ymlaen â'u bywydau bob dydd, gyda ffenestri mawr a gweithgareddau gweladwy i'w denu i mewn.
  - Mae cylchlythyrau'n cael eu postio trwy flychau llythyrau'r holl breswylwyr o fewn taith gerdded 20 munud ac mae digwyddiadau wedi'u hamserlennu i gyd-fynd â bywydau go iawn, gan gynnwys gwaith, plant a chyfrifoldebau gofalu.
  - Mae gweithio gyda chysylltwyr - pobl sy'n mynd gyda thrigolion i weithgareddau - yn ymagwedd addawol at estyn allan. Canfuwyd y gallai gymryd tri i bedwar ymweliad gyda chwmni cyn i rai pobl deimlo'n ddigon hyderus i fynychu ar eu pen eu hunain.
  - Roedd opsiynau eraill a brofwyd yn cynnwys cynnal gweithgareddau a sesiynau cyd-ddylunio mewn lleoliadau gwasanaeth fel llety dros dro, neu ddod â gwasanaethau i leoliadau Every One Every Day.
- Mae gan ymagwedd Every One Every Day y potensial i gael ei ailadrodd mewn cymunedau eraill. Fodd bynnag, gan fod y rhaglen wedi'i chynllunio i weithio mewn ardal drefol drwchus, lle mae llawer iawn o ryngweithio cyfranogol yn digwydd, mae angen cynnal profion i weld sut y gallai fod angen ei haddasu ar gyfer ardaloedd llai poblog neu ardaloedd nad ydynt yn drefol.
  - Mae rhaglen bartner yn cael ei datblygu yn Halifax yng Nghanada, ac mae'r dull yn cael ei ystyried yn Paisley yn yr Alban. Mae gan y ddau y potensial i gynnig mewnwelediad pellach i sut y gallai'r ymagwedd weithio mewn gwahanol amgylcheddau.

# Gorllewin Armagh:

## Ymgysylltu â thrigolion a datgloi buddsoddiad trwy gorff cydgysylltu lleol

Mae Gorllewin Armagh yn cynnwys rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon. Mae West Armagh Consortium (WAC) yn cynnwys trigolion y cymdogaethau hyn wrth wneud penderfyniadau am eu hardal. Mae'n cynnig hyfforddiant ac adnoddau i ddatblygu mentrau presennol a chreu a chyflwyno gweithgareddau newydd sy'n bodloni dymuniadau'r gymuned.

Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ymgysylltodd WAC â dros 400 o bobl leol fel cyfranogwyr, gwirfoddolwyr a threfnwyr, a chyflwynodd ystod eang ac amrywiol o weithgareddau, gan gynnwys cydlynu'r ymateb lleol i bandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys:

- Darparu **500** awr o fentora a chefnogaeth.
- Ymgysylltu â **525** o wirfoddolwyr.
- Creu cynlluniau iechyd personol ar gyfer **180** o bobl.
- Darparu cwnsela un-i-un am ddim i **100** o bobl.
- Codi **£248,950** ychwanegol ar gyfer y gymuned dros dair blynedd.

Mae safle allweddol WAC fel mudiad cydgysylltu lleol a phartner mewn gwaith ehangach gyda'r cyngor a chyrff statudol wedi galluogi grwpiau lleol i ganolbwyntio eu sgiliau a'u profiad ar gyflenwi gwasanaethau. Mae'r grŵp "yn lleddfu pwysau ar draws mudiadau gwirfoddol ac yn sicrhau bod y gymuned yn derbyn gwasanaeth cofleidiol na all y gwirfoddolwyr a'r mudiadau gwirfoddol ei gynnig yn annibynnol."

## Sefyllfa

Yng Ngogledd Iwerddon, mae trigolion ystadau tai yn aml yn ffurfio grwpiau cymunedol, gyda'r nod o wella gwasanaethau lleol, cysylltu ag asiantaethau statudol ac awdurdodau lleol, a gwneud cais am arian i gefnogi eu hardal. Gall y grwpiau hyn fod y brif ffordd, ac mewn rhai achosion yr unig ffordd, i asiantaethau'r llywodraeth a'r heddlu gyfathrebu â thrigolion.

Fodd bynnag, oherwydd eu natur anffurfiol, efallai y bydd y grwpiau hyn yn colli allan, neu'n anghymwys i gael arian a allai wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymuned. Mewn rhai ardaloedd, mae hyn yn cael ei waethygu gan lefelau uchel o amddifadedd a phresenoldeb cyfyngedig gan elusennau mwy, sydd i gyd yn gallu cyfrannu at neu waethygu tan-ariannu hirdymor.

Yn 2018, daeth West Armagh Consortium (WAC), corff ymbarél sy'n cynnwys wyth o'r grwpiau hyn, atom am ariannu i hwyluso rhaglen o weithgarwch cymunedol a fyddai'n targedu pobl sy'n byw yn y rhannau mwyaf difreintiedig dinas Armagh a'r ardaloedd cyfagos.

## Datrysiad

Nod y Rhaglen Cefnogi a Datblygu Cymunedol (CSDP) oedd cynnwys trigolion wrth wneud penderfyniadau am eu cymdogaethau trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i ddatblygu mentrau presennol a chreu gweithgareddau newydd.

Nod y rhaglen oedd gwasanaethu'r gymuned gyfan ar draws pum ffrwd waith allweddol a oedd hefyd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion penodol grwpiau nad ydynt o bosibl yn cymryd rhan fel arfer. Roedd y rhain yn cynnwys pobl hŷn, pobl ifanc, a phobl o gefndiroedd lleiafrifol fel y cymunedau Pwylaidd a Bwlgaraidd. Roedd y rhaglen hefyd yn canolbwyntio ar iechyd a lles, ac yn cefnogi twf a datblygiad gweithgareddau newydd.

Cynlluniwyd hyfforddiant i roi'r sgiliau i grwpiau lleol gryfhau eu gwaith datblygu cymunedol. Creodd hefyd gyfleoedd i bobl leol weithio gyda mudiadau eraill ar weithgareddau a fyddai'n cynyddu balchder yn yr ardal, yn helpu pobl i wneud y gorau o'u potensial, yn gwella cyfleoedd chwaraeon a hamdden, ac yn gwella ansawdd bywyd cyffredinol y cyfranogwyr.

Ymgysylltodd y ffrwd cymorth cymunedol â dros 400 o bobl fel cyfranogwyr, gwirfoddolwyr a threfnwyr. Yn sgil ffrydiau gwaith iechyd a lles, pobl ifanc a phobl hŷn, darparodd WAC ystod eang ac amrywiol o weithgareddau gan gynnwys hyfforddiant dyfeisiau diffibrilio awtomatig; sesiynau cwnsela; sesiynau meddwl cadarnhaol i bobl â gorbryder; clwb ieuenctid Gwyddeleg; a rhaglen o hyfforddiant sgiliau TG. Darparwyd rhai prosiectau a anelwyd at bobl hŷn gan oedolion ifanc, gan adeiladu bondiau rhwng cenedlaethau.

Roedd gwaith gyda grwpiau lleiafrifol yn cynnwys digwyddiadau tymhorol a gyflwynwyd gyda'r cymunedau Pwylaidd a Bwlgaraidd, cyfres draws-gymunedol o sgyrsiau ar hanes o wahanol safbwyntiau, a dosbarthiadau Gwyddeleg i blant. Lluniwyd pwyllgor dathlu Dydd San Padrig i drefnu'r orymdaith flynyddol. Aeth y grŵp hwn ymlaen i ddatblygu cynlluniau a dod o hyd i ariannu ar gyfer ailddatblygu adeilad lleol segur yn ganolfan adnoddau cymunedol.

Cynhaliodd WAC naw digwyddiad cymunedol hefyd, gan gynnwys gorymdaith goleuadau Nadolig a West Armagh Community Festival, dathliad wythnos o hyd o chwaraeon a diwylliant. Derbyniodd saith grŵp preswylwyr o fewn y consortiwm gefnogaeth a oedd yn eu helpu i drefnu fforymau trafod a chynllunio prosiectau â ffocws lleol.

Yn y ffrwd hon hefyd sefydlodd WAC grŵp sied dynion, gan roi cyfle a lle i ddynion â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol ddod at ei gilydd a chefnogi ei gilydd trwy weithgareddau crefft. Sefydlodd y prosiect grŵp llywio o gyfranogwyr lleol sydd bellach yn rhedeg y sied yn annibynnol.

Yn rhedeg o 2018 i 2021, cafodd y prosiect ei effeithio'n fawr gan y pandemig, ond roedd ariannu pendant yn golygu bod y gymuned yn gallu chwarae rhan bwysig yn yr ymateb lleol.

## Effaith

Mae WAC yn gweithio i roi llwyfan i fudiadau cymunedol a gwirfoddol leisio eu barn yn Armagh. Mae'r grŵp yn gweithio gyda'r cyngor lleol ac asiantaethau statudol eraill i fynd i'r afael â materion gan gynnwys cyllidebu cyfranogol ac i helpu trigolion i gyfrannu at gyfeiriad y ddinas yn y dyfodol.

Mae budd-ddeiliaid lleol yn cydnabod manteision cymunedol ymgysylltiad WAC mewn amrywiaeth o fentrau lleol sy'n cynnwys:

- Partneriaeth Adnewyddu Cymdogaeth Armagh, sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi.[53]
- The Community Voluntary Sector Panel, sy'n gweithio gyda'r cyngor lleol i roi ei gynllun cymunedol ar waith. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i bobl leol gymryd rhan ym mywyd y gymuned, hysbysu penderfyniadau, gwneud dewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw, a chreu bwrdeistref ddiogel, barchus a heddychlon.[54]
- The Healthy Living Centre Alliance, sy'n darparu gwasanaethau iechyd a lles, gan gynnwys rhaglenni poen cronig ac iechyd meddwl, yn ogystal â gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol sy'n cysylltu pobl â chymorth lleol ar gyfer eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol.[55]
    - Mae WAC yn bartner ym mhrosiect rhagnodi cymdeithasol Bogside and Brandywell Health Forum's ledled Gogledd Iwerddon, yr ydym hefyd yn ei ariannu. Mae hyn yn cefnogi gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol a chymunedol i gydweithio i wella canlyniadau iechyd meddwl a chorfforo.
- Mae cysylltiadau ag Ysgol Haf Ryngwladol Boston yn cynnwys West Armagh yn rhaglen Heddwch Rhyngwladol ac Adnoddau Addysgol Blynyddol Prifysgol Boston. Mae hyn yn gweld myfyrwyr yn ymweld ag Armagh fel rhan o'r cymhwyster Meistr mewn Datrys Gwrthdaro.

Mae WAC wedi adfywio elfennau allweddol o isadeiledd cymunedol lleol trwy recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd a chryfhau rôl elusennau ar draws yr ardal. Mae'r consortiwm yn cael ei werthfawrogi'n lleol am y ffordd y mae'n "llenwi'r bwlch rhwng asiantaethau'r llywodraeth" a'i rôl wrth sefydlu, cefnogi a thyfu gweithgareddau a mentrau cymunedol, na fyddai llawer ohonynt "yn bodoli heb WAC."[56]

Trwy'r Rhaglen Cefnogi a Datblygu Cymunedol, cyflwynodd WAC 500 awr o fentora a chymorth, ymgysylltu â 525 o wirfoddolwyr, creu cynlluniau iechyd pwrpasol ar gyfer 180 o bobl, a darparu cwnsela un-i-un am ddim i 100 o bobl.

Chwaraeodd WAC ran sylweddol hefyd yn yr ymateb lleol i COVID-19 drwy gysylltu grwpiau cymunedol ac ymgysylltu â phobl leol. Darparodd hyn dros 1,300 o becynnau cymorth i 300

o deuluoedd lleol; mwy na 100,000 o ddarnau o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer ysbytai lleol, cartrefi gofal ac ysgolion; a gwerth £22,085 o gymorth digidol i blant yn ystod cyfnodau cloi.

Yn gyffredinol, mae WAC wedi llwyddo i ddod ag ariannu ychwanegol sylweddol i Orllewin Armagh, gan godi £248,950 ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys £19,000 gan Weithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon i ddarparu gwasanaeth tasgmon fforddiadwy WAC fel menter gymdeithasol, a £100,000 i ehangu sied y dynion.

## Dysgu

- Gall mudiad cydgysylltu lleol helpu grwpiau cymunedol bach, anffurfiol i fod yn fwy na chyfanswm eu rhannau. Mae cymorth logistaidd yn rhyddhau eraill i ganolbwyntio eu sgiliau a'u profiad ar ddarpariaeth rheng flaen.
  - Yn ystod yr ymateb i COVID-19, cymerodd WAC ofal o farchnata; trefnu cyfarfodydd rhithwir a meddalwedd; sefydlu system atgyfeirio ar gyfer pobl sydd angen cymorth; cofrestru gwirfoddolwyr newydd; caffael PPE a rhoddion trwy gysylltiadau ag entrepreneuriaid lleol; a darparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer grwpiau sy'n gweithio gyda chymunedau lleiafrifol.
  - Canfu ymgynghoriad gyda 19 budd-ddeiliad lleol fod cefnogaeth WAC "yn lleddfu pwysau ar draws mudiadau gwirfoddol ac yn sicrhau bod y gymuned yn derbyn gwasanaeth cofleidiol na all y gwirfoddolwyr a'r mudiadau gwirfoddol ei gynnig yn annibynnol."[57]
- Mae cael eu harwain gan bobl yn galluogi mudiadau i ystwytho ac addasu i'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau. O ganlyniad, datblygodd WAC wasanaethau newydd na fyddent wedi bod ar gael fel arall ac nad oeddent yn ganolog i ymagwedd y grŵp ar ddechrau'r prosiect.
- Canfu WAC fod cael set gydlynol o weithgareddau, a chyfathrebu sy'n pwysleisio negeseuon am wella cysylltiadau cymdeithasol, lles a lefelau gweithgaredd, yn adeiladu dealltwriaeth pobl o'r hyn sy'n digwydd a pham, ac yn cynnal eu diddordeb dros amser.
  - Gall rhoi cynnig ar syniadau newydd ar gyfer digwyddiadau cymunedol, yn hytrach na chanolbwyntio ar opsiynau profedig, ddal dychymyg pobl a chynyddu cyrhaeddiad.
  - Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol, yn enwedig gyda chymunedau sy'n llai tebygol o gymryd rhan. Canfu WAC y gallai ymgysylltu y tu hwnt i grwpiau Catholig a Phrotestannaidd, annog dynion i gymryd rhan, a manteisio ar bwysigrwydd cynyddol yr amgylchedd i bobl leol fod wedi annog mwy o gyfranogiad parhaus ac ehangu cyrhaeddiad.
  - Mae sicrhau bod digon o offer o ansawdd da ar gael ar gyfer prosiectau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn bwysig er mwyn bod pobl yn dal i fynychu.
  - Mae cronfa ddata gwirfoddolwyr yn ei gwneud hi'n haws cynnwys ystod ehangach o bobl. Gall hefyd helpu i sicrhau bod pawb sydd wedi mynegi diddordeb yn cael cynnig y cyfle i helpu. Gallai hyn fod yn allweddol i adeiladu ton gychwynnol o frwdfrydedd i gyfranogiad cymunedol parhaus.

# Southend-on-Sea:

## Buddsoddiad strategol, parhaus yn y blynyddoedd cynnar

Mae Better Start Southend yn bartneriaeth o fudiadau statudol, cymunedol a gwirfoddol a chynrychiolwyr rhieni a gefnogir gan dros £36 miliwn gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'n rhan o'n rhaglen ehangach gwerth £215 miliwn sy'n adeiladu partneriaethau seiliedig ar le i wella cyfleoedd bywyd babanod a phlant ifanc.

Mae'n gweithio mewn chwe ward yn Southend sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yn Lloegr a'i nod yw gwella diet a maethiad plant, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, a lleferydd, iaith a chyfathrebu.

- Cyn i'r prosiect ddechrau, roedd babanod yn yr ardaloedd hyn yn llai tebygol o gael eu bwydo ar y fron na'r rheini mewn wardiau eraill, ond cododd y ganran o 58% i 74% yn 2021, ac ar ôl wyth wythnos roedd yn 56.1% o gymharu â 47.6% ar draws Lloegr.
- Helpodd cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith i gynyddu cyfran y plant sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad mewn siarad erbyn eu bod yn bedair oed, gan ragori ar y cyfartaledd cenedlaethol o 85.2% mewn tair blynedd yn unig.

Rydym wedi dysgu bod ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at gymorth drwy un 'drws ffrynt' yn dod â gwerth i rieni ac yn gallu gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch. Mae harneisio gwybodaeth leol yn helpu i deilwra gwaith yn briodol, a gall ymestyn cyrhaeddiad i wahanol gymunedau, gan ei gwneud yn haws i bobl ddod i wybod am wasanaethau a chymryd rhan ynddynt.




A Better Start

## Sefyllfa

Yn 2010, edrychodd Adolygiad Marmot[58] ar strategaethau effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd yn Lloegr. Canfu fod darparu sylfaen gref i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau hirdymor mewn perthynas â phethau megis gordewdra, clefyd y galon, iechyd meddwl, addysg, a statws economaidd.

Mewn ymateb, sefydlwyd A Better Start (ABS), sef rhaglen ddeng mlynedd gwerth £215 miliwn sy'n canolbwyntio ar wella systemau lleol mewn pum ardal: Blackpool, Bradford, Southend-on-Sea, Lambeth a Nottingham, i gefnogi'r blynyddoedd cynnar.

Ei nod yw gwella canlyniadau drwy:

- Symud adnoddau o ddatrys problemau i'w hatal.
- Uwchsgilio'r gweithlu a rhannu dysgu y tu hwnt i'r prosiect.
- Integreiddio gwaith ar draws sectorau allweddol i greu llwybrau cydgysylltiedig o wasanaethau.
- Rhoi teuluoedd wrth galon cynllunio a darparu gwasanaethau fel eu bod yn diwallu eu hanghenion yn well.
- Profi dulliau a arweinir gan y gymuned sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol babanod a phlant bach, datblygiad cyfathrebu ac iaith, a maeth.

## Datrysiad

Arweinir A Better Start Southend (ABSS) gan Early Years Alliance, gan weithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr strategol a theuluoedd.  Ei nod yw gwella arferion gwaith lleol a symud gwariant tuag at atal.[59] Ymhlith yr aelodau mae Southend-on-Sea City Council, dwy ymddiriedolaeth sefydliad y GIG, Southend Clinical Commissioning Group, Prifysgol Essex, heddlu lleol a Southend Association of Voluntary Services a rhieni lleol.

Mae ABSS yn canolbwyntio ar gyflwyno mentrau seiliedig ar wyddoniaeth o fewn chwe ward yn Southend sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yn Lloegr: Kursaal , Milton, Shoeburyness, Victoria, Westborough a West Shoebury.

Mae hyrwyddwyr rhieni yn allweddol i'r ymagwedd, gyda rhwydwaith o dros 65 o hyrwyddwyr hyfforddedig a mwy na 40 yn fwy dan hyfforddiant. Mae hyrwyddwr cydgynhyrchu, a ariennir ar y cyd â'r cyngor, yn gweithio i wreiddio cydgynhyrchu ar lefel fwy strategol, gan sicrhau bod uwch swyddogion iechyd y cyhoedd yn clywed yn uniongyrchol am yr heriau y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu.[60]

### Cynyddu'r nifer sy'n dechrau bwydo ar y fron

Cynigir cymorth bwydo ar y fron yn gynnar yn ystod beichiogrwydd, ac mae'r GIG yn hyrwyddo cymorth un-i-un yn weithredol pan fydd menywod yn bwcio eu hapwyntiad cyn geni wyth i 12 wythnos. Mae cymorth personol ar gael gartref am y chwe wythnos gyntaf ar ôl rhoi genedigaeth.

Yn dilyn arweiniad cychwynnol gan staff hyfforddedig, mae mamau yn cael cynnig hyd at flwyddyn o gymorth gan grwpiau bwydo ar y fron, a ddarperir gan bartneriaid elusennol lleol. Mae cymorth hirdymor i famau tro cyntaf hefyd ar gael i hybu eu lles cyffredinol, ochr yn ochr â thîm o ymwelwyr iechyd sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl amenedigol.

Mae'r tîm yn gweithio gyda'r cyngor a busnesau lleol i normaleiddio bwydo ar y fron yn gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth Southend Supports Breastfeeding, a ddarperir trwy siopau, caffis, amgueddfeydd a thrafnidiaeth gyhoeddus.


A Better Start

### Datblygu lleferydd ac iaith

Mae ABSS hefyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad lleferydd ac iaith mewn plant. Gall anawsterau cyfathrebu gael effeithiau negyddol hirdymor ar gyrhaeddiad addysgol, ymddygiad a lles.[61]

Er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni, rhennir gwybodaeth mewn apwyntiadau cyn-geni ac yn ystod ymweliadau statudol plant dan flwydd oed gan ymwelwyr iechyd. Mae Let's Talk, a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Prifysgol Partneriaeth Essex, yn cynnig ystod o gyrsiau am ddim i rieni a phlant. Mae ganddi hefyd gysylltiadau cryf â phartneriaethau nyrsys teulu a'r tîm ymwelwyr iechyd lleol.

Mae athrawon ABSS arbenigol yn gweithio mewn 90% o leoliadau blynyddoedd cynnar ac yn arwain darparwyr ar sut i gefnogi a chyfathrebu'n well â phlant a chreu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Maent hefyd wedi hyfforddi ymarferwyr i ddefnyddio offeryn sgrinio Wellcomm[62] i nodi plant ag oedi mewn sgiliau cyfathrebu.

## Effaith

Erbyn mis Awst 2022, roedd ABSS wedi cyrraedd dros 5,000 o fenywod beichiog a theuluoedd â babanod a phlant o dan bedair oed.[63]

Awgryma canlyniadau arolygon o rieni, staff a gwirfoddolwyr bod ABSS wedi gwella canlyniadau i blant yn wardiau mwyaf difreintiedig y ddinas ar draws ystod o fesurau.[64]

- • Dywedodd staff eu bod wedi gwella hyder rhieni, wedi eu helpu i gefnogi twf a datblygiad eu plant (94%), ac wedi gwella eu canlyniadau (90%).

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni a ymatebodd, ers cymryd rhan yn ABSS, eu bod yn fwy abl i gael cymorth i helpu eu plant i ryngweithio ag eraill (82% o gymharu â 56% cyn ABS), mynegi eu hunain (77% o gymharu â 53%) a deall eu teimladau ac ymddygiad (72% o gymharu â 47%).
- Dywedodd cyfran uchel o rieni hefyd eu bod yn gwybod mwy am fanteision bwydo ar y fron (89% o gymharu â 52% o'r blaen), a gweithgareddau y gallent eu gwneud i helpu eu plant i ddysgu siarad (78% o gymharu â 41% o'r blaen) a mynegi eu hunain (74% o'i gymharu â 31% o'r blaen).
- Dywedodd 80% o'r rhai a ymatebodd i arolygon rhieni a chymuned fod mwy o gyfranogiad cymunedol wrth ddylunio gwasanaethau blynyddoedd cynnar lleol oherwydd ymagwedd ABSS.

Mae ABSS hefyd wedi helpu i gynyddu a chynnal cyfraddau bwydo ar y fron ac wedi cyfrannu at gynnydd yng nghyfran y plant sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad mewn siarad erbyn eu bod yn bedair oed, gan ragori ar y cyfartaledd cenedlaethol mewn tair blynedd yn unig.[65]

- Mewn wardiau targed, cododd canran y mamau sy'n dechrau bwydo ar y fron o 58% ym mis Mawrth 2018, i 74% ym mis Awst 2021. Cynyddodd y ganran sy'n dal i fwydo ar y fron ar ôl chwech i wyth wythnos o 39.1% i 56.1%, gan ragori ar gyfartaledd cenedlaethol Lloegr, a gynyddodd o 46.2% i 47.6% yn yr un cyfnod.
- Derbyniodd 1,770 o blant gymorth lleferydd ac iaith yn ystod pum mlynedd gyntaf y rhaglen. Cododd y gyfran sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad mewn siarad erbyn pedair oed i 85.6% (ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol) yn 2018/19, o 77.9% dair blynedd ynghynt.
- Cynyddodd y gyfran a gyflawnodd sgiliau gwrando disgwyliedig hefyd, gan godi o 80.2% i 86.4%, gan ragori ar y cyfartaledd cenedlaethol o 85.8%.
- Mae ABSS hefyd wedi gweld gwelliant yng ngallu plant i reoli eu teimladau, gan arwain at ymddygiad gwell (89.3%), sydd bellach hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87.3%.

Mae ABSS yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gydag ariannu'r Loteri Genedlaethol i ddod i ben yn 2025. Ymgorfforwyd The City Family Community Interest Company yn ddiweddar i ddod yn hunangynhaliol a sicrhau arianwyr a buddsoddwyr newydd. Mae'r grŵp yn bwriadu parhau ag etifeddiaeth ABSS tra hefyd yn cyflwyno mentrau newydd fel YourFamily, sy'n cynnig cefnogaeth cymheiriaid a mynediad i dimau arbenigol i gefnogi rhieni.

Mae The Mid and South Essex Integrated Care System hefyd wedi gweithio gydag ABSS i archwilio opsiynau partneriaeth yn y dyfodol a thrafod sut y gall cydweithredwyr allweddol barhau i lunio a chefnogi gwasanaethau plant a phobl ifanc.[66]

## Dysgu

- Mae ymagwedd gysylltiedig, system gyfan yn gwneud synnwyr i drigolion.
  - Mae integreiddio elusennau a theuluoedd fel partneriaid cyflawni allweddol ochr yn ochr â gwasanaethau awdurdodau lleol a gofal iechyd yn dod â gwerth drwy ganiatáu i bobl gael mynediad at gymorth drwy un 'drws ffrynt'.
  - Gall wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch, drwy harneisio gwybodaeth leol i deilwra gwaith yn briodol, ac mae'n ymestyn cyrhaeddiad i wahanol gymunedau, gan ei gwneud yn haws i bobl ddod i wybod am weithgareddau a chymryd rhan ynddynt.
- Ariannu mewn mod sy'n galluogi pob rhan o'r system i weithio tuag at nodau trosfwaol. Gall targedau cyflawni pragmatig, yn hytrach na rheolau caeth ar gyfer pob mudiad a ariennir, gynyddu'r siawns y bydd partneriaeth yn gweithio'n ddidrafferth, ond mae rhai meysydd yn elwa ar eglurder o'r cychwyn.
  - Cytuno pwy sy'n gyfrifol am ar beth a sut y bydd darparwyr gwasanaeth yn cydweithio, gan gynnwys gyda'r rhai nad ydynt yn rhan o'r rhaglen.
  - Cytuno ar fecanweithiau atgyfeirio neu gyfeirio ac adnoddau ymlaen llaw. Gallai cyfeiriadau uniongyrchol rhwng darparwyr fod yn haws gyda phartneriaid sydd wedi arfer gweithio yn y modd hwn, fodd bynnag bydd angen arian a chymorth ar lawer o bartneriaid elusennol i reoli galw cynyddol.

# I gloi

O frocera partneriaethau rhwng mudiadau lleol a chenedlaethol i gyflogi gweithwyr datblygu, ac o hwyluso trosglwyddiadau asedau i adeiladu ymddiriedaeth o fewn cymunedau difreintiedig, mae'r astudiaethau achos a gyflwynir yma yn ymdrin ag ystod o ddulliau gweithio.

Maent yn enghreifftiau o'r ffyrdd amrywiol y mae cymorth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi: helpu i wella gallu a chapasiti elusennau a rhwydweithiau lleol; grymuso cymunedau i nodi a mynd i'r afael â'u blaenoriaethau; a chyfeirio ariannu i leoedd a oedd wedi'i chael yn anodd cael mynediad ato yn flaenorol.

Yr hyn sy'n eu huno yw'r ddealltwriaeth bod cael adnoddau i'r cymunedau sydd ei angen fwyaf yn cymryd mwy nag ariannu yn unig. Mae hefyd yn gofyn am amynedd, parodrwydd i adael i gymunedau fentro a dysgu cymryd yr awenau, ac awydd i arbrofi a phrofi. Mae buddsoddi amser i fod yn fwy gwybodus a chysylltiedig yn lleol yn golygu y gall arianwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd esblygu a dod yn fwy abl i nodi pryd a ble y gall cymorth wedi'i dargedu helpu i ddileu rhwystrau a rhyddhau potensial lleol.

Mae'n bwysig bod yn dryloyw; nid yw pob un o'r ymagweddau hyn wedi arwain at welliannau parhaus, hirdymor. Mae olrhain effaith hirdymor ein buddsoddiadau mwyaf, tra'n bodloni'r galw am ariannu i fynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol ar elusennau - gan eu galluogi i gyflawni nawr - yn waith cydbwyso anodd. Gobeithiwn fod yr enghreifftiau hyn yn cynnig ysbrydoliaeth a syniadau ar sut i dargedu ariannu mewn modd creadigol i feysydd lle mae modelau safonol o fuddsoddiad o'r brig i'r bôn wedi cael trafferth mynd i'r afael â heriau hirsefydlog.

Bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'n hadroddiad 2018 ar weithio ac ariannu seiliedig ar le, sy'n darparu cyngor ymarferol a dysgu i helpu arianwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol i weithio gyda ffocws lleol. Gyda'i gilydd, mae'r ddau bapur yn darparu pecyn cymorth o ymagweddau ac ystyriaethau posibl i unrhyw un sy'n chwilio am ffyrdd gwell, mwy cynaliadwy o fuddsoddi yn eu lle.

I gael rhagor o wybodaeth am yr effaith a'r dysgu y mae ein hariannu wedi'i gynhyrchu, ewch i adran Mewnwelediad ein gwefan.

# Cyfeirnoau

1 Torbay Knowledge and Intelligence Team (2022). Torbay Joint Strategic Needs Assessment (JSNA) 2022/23. https://www.torbay.gov.uk/DemocraticServices/documents/s125211/JSNA%20Appendix%201.pdf

2 James Noble, Andrew Weston (2017). "Communities Can" Final Evaluation Report. https://www.youngfoundation.org/our-work/publications/communities-can-final-evaluation-report/

3 Devon Live (2017). Vandal-hit playground rises from the ashes [04 08 2017]. https://www.devonlive.com/news/devon-news/vandal-hit-playground-rises-ashes-283209

4 Torbay Community Development Trust (2017). £72,000 of National Lottery Funding Awarded to Torbay Good Causes. https://www.torbaycdt.org.uk/news/article/?id=2ae3a28c-14a5-4c82-86ce-1d01bfc25593&category=Funding

5 Torbay Community Development Trust (2017). Get involved! https://www.torbaycdt.org.uk/news/article/?id=5a27c4e0-84da-4e04-870d-962e8353061d&category=General%20News

6 Torbay Community Development Trust (2017). TCDT Annual Report 2016-2017. https://issuu.com/torbaycdt/docs/tcdt_annualreport2017_web

7 Sound Communities (2020). Covid impact report 2020-2021. https://soundcommunities.co.uk/what-we-do/our-impact/

8 Sound Communities (2021). Sound Communities CIC Impact Film 2021. https://youtu.be/AQzMepcNGus

9 Kath McKenna, Jenny Williams, Amy Humphreys, Diarmid Campbell-Jack, James Whitley and Korina Cox (2022). The Ageing Better Programme: Summative Report. https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/documents/ageing-better/Ageing-Better-summative-report.pdf

10 SERIO Research and Innovation (2021). Ageing Well Torbay: Overall Findings 2015-2020. https://ageingwelltorbay.com/wp-content/uploads/2021/04/Ageing-Well-Torbay-Key-Learning-Report-2021-Final-220421.pdf

11 Kath McKenna et. al. (2022).

12 Kath McKenna et. al. (2022).

13 Data monitro a adroddwyd i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn 2022.

14 Kath McKenna et. al. (2022).

15 Lily O'Flynn, Eleanor Langdale, Waseem Meghejee (2021). LocalMotion Learning: A report on learning from the set-up and engagement phase of LocalMotion. https://localmotion.org.uk/stories/reflections-on-the-localmotion-journey-so-far/

16 Hansard (20 March 2001). Written Answers, Departmental Policies (Stourbridge). https://publications.parliament.uk/pa/cm200001/cmhansrd/vo010322/text/10322w02.htm

17 Wren's Nest Navigators (2022). Wren's Nest Navigators Annual Report (unpublished).

18 Hampshire County Council (2019). The 2019 Index of Multiple Deprivation. https://documents.hants.gov.uk/Economy/IndexofMultipleDeprivation.pdf

19 Portsmouth Age UK and Gosport Voluntary Services (2022). Close Encounters: Year three report. (Unpublished).

20 Portsmouth Age UK and Gosport Voluntary Services (2022).

21 Motiv8 (2022). Lottery progress update, year 3. (Unpublished).

22 Mind Havant and East Hants and Motiv8 (2022). Havant Lighthouse Project, Year one report. (Unpublished).

23 Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2021). Newtown: A place to be proud of. https://www.tnlcommunityfund.org.uk/insights/differences-we-make/difference-we-make/place-based-stories/newtown-a-place-to-be-proud-of

24 Cyngor Tref Y Drenewydd (2019). Historic Land Transfer Complete in Newtown. https://newtown.org.uk/uncategorized/historic-land-transfer-complete-in-newtown-01-02-19.html.

25 Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2021).

26 Wales 247 (2021) Newtown secures funding for wellbeing projects [17 November 2021]. https://www.wales247.co.uk/newtown-secures-funding-for-wellbeing-projects

27 Powys County Times (2021). Brexit and Covid push up costs at Newtown Riverside hub [21 October 2021]. https://www.countytimes.co.uk/news/19662690.brexit-covid-push-costs-newtown-riverside-hub/

28 Open Newtown (Going Green for A Living Community Land Trust Ltd.) (2020). Adroddiad diwedd blwyddyn 2. Cyfnod adrodd Ionawr – Rhagfyr 2020 (heb ei gyhoeddi).

29 Open Newtown (Going Green for A Living Community Land Trust Ltd.) (2021). Adroddiad diwedd blwyddyn 3. Cyfnod adrodd Ionawr – Rhagfyr 2021 (heb ei gyhoeddi).

30 Giles Ruck, Foundation Scotland (2022) How funders can accelerate the journey to a wellbeing economy. https://www.foundationscotland.org.uk/about-us/our-news/how-funders-can-accelerate-journey-to-wellbeing-economy

31 Sylfaen Cymunedol Cymru (2013). Dyngarwch ar Waith: Adolygiad Blynyddol 2013. https://issuu.com/fundforwales/docs/annual_review_2013_bilingual

32 UK Community Foundations (2013). Capacity building, social capital, liveability and sustainability: Understanding what's changed and why. https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/insights/documents/FST-UK-wide-Impact-report.pdf

33 Community Ownership Support Service, Development Trusts Association Scotland (2021). Tullibody Civic Centre A phased approach to community ownership. https://dtascommunityownership.org.uk/resources/case-studies/tullibody-civic-centre-case-study-2021

34 Tullibody Community Development Trust (2012). Tullibody Civic Centre saved from closure with Scottish Land Fund help. https://tullibodycdt.org.uk/2020/02/13/tullibody-civic-centre-saved-from-closure-with-scottish-land-fund-help/

35 Clackmannanshire Council (2020). Asset Transfer Request Reporting Template 2021/22 for Relevant Authorities. https://www.clacks.gov.uk/document/6731.pdf

36 Local Energy Scotland (un-dated). Burnfoot cluster: case study. https://localenergy.scot/casestudy/burnfoot-cluster/

37 Communities Channel Scotland (2021). Alva matters - Alva Development Trust's support to local people during covid-19. https://www.communityscot.org.uk/news/alva-matters-alva-development-trusts-support-to-local-people-during-covid-19

38 Scottish Construction Now (2022). £1.2m upgrade planned for Clackmannan Town Hall. https://www.scottishconstructionnow.com/articles/ps12m-upgrade-planned-for-clackmannan-town-hall

39 Alloa and Hillfoots Advertiser (2019). Trust might buy Tullibody Civic Centre, amid 'red tape and delays'. [26 September 2019]. https://www.alloaadvertiser.com/news/17928656.trust-might-buy-tullibody-civic-centre-amid-red-tape-delays/

40 Local Energy Scotland (dim dyddiad)..

41 Community Ownership Support Service, Development Trusts Association Scotland (2021).

42 Chronicle Live (2021). Cresswell Tower in Northumberland among structures removed from Historic England's at Risk register. [10 Tachwedd 2021]. https://www.chroniclelive.co.uk/news/north-east-news/cresswell-tower-removed-risk-register-22061835

43 LJ Research (2022). CELL Final Feedback: Thoughts from Residents, Funded Projects and Partnership Members. https://cellvillages.co.uk/downloads/cell-big-local-final-feedback-february-2022.pdf

44 CELL Big Local (2022). Making a Difference in Cresswell, Ellington, Lynton and Lynemouth: Our story, 2013-2022. https://cellvillages.co.uk/downloads/cell-big-local-our-story-2013-2022.pdf

45 Local Trust (2022). First area to spend Big Local £1.15m celebrates. https://localtrust.org.uk/news-and-stories/news/flying-high-first-big-local-area-to-spend-funds-celebrates/

46 Local Trust (2021). Risk of Big Local areas not spending out. https://localtrust.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/Research-paper-areas-at-risk-of-not-spending-out.pdf.

47 LJ Research (2022).

48 Local Trust (2021).

49 Local Trust (2021).

50 LJ Research (2022).

51 Every One Every Day (2022). Every One Every Day is 5 years old! https://www.weareeveryone.org/

52 Participatory City Foundation (2019). Tools to Act: Building a Participatory Ecosystem in Barking and Dagenham through the Every One Every Day initiative. Year 2 report. https://www.weareeveryone.org/reports

53 Armagh City, Banbridge and Craigavon Borough Council (dim dyddiad). Neighbourhood Renewal. https://www.armaghbanbridgecraigavon.gov.uk/resident/neighborhood-renewal/

54 Armagh City, Banbridge and Craigavon Borough Council (2017). Connected: A community for Armagh City, Banbridge and Craigavon Borough 2017-2030. https://www.armaghbanbridgecraigavon.gov.uk/resident/community-planning/

55 West Armagh Consortium (dim dyddiad).. Social Prescribing - Community approach to health and well-being. https://westarmaghconsortium.org/index.php/community/350-social-prescribing-community-approach-to-health-and-well-being

56 Stephen Fields, West Armagh Consortium (2021). West Armagh Community Support and Development Project 2018-2021. Evaluation Report. (Heb ei gyhoeddi).

57 Stephen Fields (2021).

58 Michael Marmot, Peter Goldblatt, Jessica Allen, et al. (2010). Fair Society, Healthy Lives. https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review

59 Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2019). A Better Start through Better Systems: Insights from The National Lottery Community Fund's A Better Start Programme. https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/documents/a-better-start/ABS-better-start-better-systems.pdf?mtime=20191211085749

60 A Better Start Southend (dim dyddiad). The role of parent champions. https://abetterstartsouthend.co.uk/blog/parent-champions-and-the-programme/

61 Early Intervention Foundation (2017). Language as a child wellbeing indicator. https://www.eif.org.uk/report/language-as-a-child-wellbeing-indicator

62 GL Assessment (dim dyddiad). WellComm: The complete speech and language toolkit, from screening to intervention. https://www.gl-assessment.co.uk/assessments/products/wellcomm/

63 RSM (2022). Southend's Best Start: What has been the impact of the ABSS programme? Phase 1 final report for the summative evaluation. https://abetterstartsouthend.co.uk/wp-content/uploads/2022/09/RSM_Summative_Phase1_Full.pdf

64 A Better Start Southend (2022). ABSS Legacy and Sustainability Strategy. (Appendix to: A Better Start Southend – update to Southend Health & Wellbeing Board 8 June 2022.) https://democracy.southend.gov.uk/documents/s50694/Report%20of%20Director%20Chair%20for%20ABSS.pdf

65 Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2022). Early childhood development: A Better Start Southend. https://www.tnlcommunityfund.org.uk/insights/differences-we-make/difference-we-make/impact-case-studies/a-better-start-southend

66 Mid and South Essex Integrated Care Partnership (2022). Children and young people: Our plans to ensure children and young people across mid and south Essex have the best start in life. https://www.midandsouthessex.ics.nhs.uk/work/children-young-people/

# Ymwadiad cyfreithiol

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd hanesion personol deiliaid grantiau a staff ac yn rhannu enghreifftiau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda i eraill. Nid yw unrhyw farn, meddyliau neu safbwyntiau a fynegir gan ddeiliaid grant a staff o reidrwydd yn cynrychioli barn, meddyliau neu safbwyntiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ("y Gronfa"). Nid yw'r Gronfa yn cymeradwyo nac yn argymell unrhyw fudiad a grybwyllir, ac nid yw ychwaith yn cymeradwyo unrhyw gynnwys allanol sy'n gysylltiedig ag ef yn yr adroddiad hwn.

Ni ddylid cymryd cynnwys yr adroddiad hwn fel cyfarwyddyd, arweiniad neu gyngor ac ni ddylech ddibynnu ar y wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn lle cyngor proffesiynol.

I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid yw'r Gronfa yn derbyn unrhyw atebolrwydd ac yn ymwadu pob atebolrwydd i unrhyw drydydd parti sy'n honni ei defnyddio neu ddibynnu am unrhyw reswm o gwbl ar yr adroddiad, ei gynnwys, casgliadau, mae unrhyw ddetholiad, ail-ddehongliad, diwygiad a/neu addasiad gan unrhyw drydydd parti ar eu menter eu hunain yn gyfan gwbl. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynrychioliadau na gwarantau, boed yn benodol neu'n ymhlyg, bod cynnwys yr adroddiad hwn yn gywir, yn gyflawn neu'n gyfredol.

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi geisio caniatâd deiliad perthnasol yr hawlfraint.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [gov.uk/government/publications](gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Llawr 1af Peel Building, 2 Marsham Street, London, SW1P 4DF, neu gallwch anfon e-bost atom yn [knowledge@tnlcommunityfund.org.uk](mailto:knowledge@tnlcommunityfund.org.uk).

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Mae Tîm Gwybodaeth a Dysgu Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn rhannu mewnwelediadau am brofiadau ein hariannu a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud. Os hoffech ddweud wrthym beth yw eich barn am yr adroddiad hwn, neu rannu canfyddiadau a dysgu perthnasol, gyrrwch e-bost at knowledge@tnlcommunityfund.org.uk

Cyswllt allweddol: Temoor Iqbal

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Fersiwn 1.
Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Cyfeirnod: KL23-01